Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2020 - 2021

Mehefin 2021




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


**Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: www.senedd.cymru**

**Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:**



**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
**Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.**

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2020 - 2021

Mehefin 2021

# Cynnwys

## Trosolwg 6

Rhagair ........ 8
Cyflwyniad ........ 10
Datganiad o ddiben ........ 12
Comisiynwyr ........ 14
Cynghorwyr Annibynnol ........ 16
Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn ........ 20
Trefniadau Rheoli'r Comisiwn ........ 22
Strwythur llywodraethu ........ 23
Cynllunio ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd ........ 24
Crynodeb o'r Gweithgareddau ........ 26

## Dadansoddi Perfformiad 32

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ........ 35
Proffil Risg ........ 44
Adolygiad Ariannol ........ 47
Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf ........ 53
Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd ........ 73
Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth ........ 83
Cynaliadwyedd ........ 101

## Atebolrwydd 110

Llywodraethu Corfforaethol ........ 112
Staff a Thaliadau ........ 135
Atebolrwydd ac Archwiliad ........ 151

## Datganiadau Ariannol 164

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 170
Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra ........ 198



# Trosolwg

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.



# Rhagair



**Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy mhumed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd; sef adroddiad terfynol y Bumed Senedd.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i herio ein ffyrdd o weithio wrth i'r pandemig Covid barhau, gan effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau. Mae'r ffordd y gwnaeth y Senedd ddwyn Gweinidogion i gyfrif wedi esblygu dros y 12 mis diwethaf. O gyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn ar ffurf rhithwir a hybrid, rydym wedi datblygu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gyfyngiadau newidiol a pharhau i ymgysylltu â phob rhan o gymdeithas.

Wrth inni edrych at y dyfodol, ein her yw ymgorffori'r agweddau cadarnhaol ar newid ein ffordd o weithio. Bydd Aelodau sydd am gyfrannu'n rhithwir yn gallu gwneud hynny, a bydd hi'n haws i bobl o bob cwr o Gymru gyfrannu at ymchwiliadau ein Pwyllgorau. O ganlyniad i hyn, bydd ein gallu i gyrraedd pob rhan o Gymru, a'n holl gymunedau yn gwella'n fawr.

Mae adroddiad terfynol y Bumed Senedd hefyd yn rhoi cyfle imi fyfyrio ar yr adegau arwyddocaol niferus rydym wedi'u profi ers etholiad 5 Mai 2016. Mae Brexit wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol sydd wedi gofyn i Aelodau a staff y Comisiwn graffu'n drylwyr arnynt. Ar yr un pryd, daeth y Cynulliad yn Senedd sydd wedi caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio.

Hefyd, arweiniodd ein pwyslais ar rymuso'r genhedlaeth nesaf at greu'r Senedd Ieuenctid, y mae ei Haelodau wedi gwneud gwaith mor rhagorol yn cynrychioli buddiannau eu cyfoedion.

Wrth i'r tymor pum mlynedd rhyfeddol hwn ddirwyn i ben, erys ein meddyliau gyda'r rhai y mae Covid wedi newid eu bywydau am byth. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ein gwaith fel erioed o'r blaen ac mae gan y cyhoedd well dealltwriaeth nag erioed o'r hyn a wnawn.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch i staff y Comisiwn am barhau i gefnogi'r broses o gyflwyno busnes y Senedd mor effeithiol ac am eu brwdfrydedd a'u hegni wrth ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf mewn amgylchiadau mor heriol.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Wrth ysgrifennu fy nghyflwyniad ar gyfer Adroddiad Blynyddol y llynedd, nodais ei bod yn anodd edrych yn rhy bell y tu hwnt i'r pandemig Covid-19.

Rwy'n siŵr mai ychydig iawn ohonom oedd yn disgwyl i'r argyfwng gwaethaf ym maes iechyd y cyhoedd mewn degawdau fod yn rhan mor fawr o'n bywydau 12 mis yn ddiweddarach, ac y byddai trefniadau dros dro yn dod yn sail i drafodaethau eang ar ein gwaith yn y dyfodol.

Mae'r pandemig wedi arwain at heriau digynsail i'r Senedd fel sefydliad, ac ni allwn fod yn fwy balch o'r modd yr ydym wedi ymateb gyda chydnerthedd a chadernid er mwyn parhau i ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf i'r Aelodau.

Diolch i ymdrechion rhyfeddol timau ar draws y sefydliad, mae Busnes y Senedd wedi parhau'n ddi-dor, gan symud yn rhwydd rhwng trafodion hybrid a hollol rithwir. Mae'r pwyllgorau wedi bwrw ymlaen â'u gwaith mewn modd tebyg, gyda'r Pwyllgor Deisebau yn benodol yn darparu llwyfan digidol lle

gallai pobl barhau i ymgysylltu â'u democratiaeth, gan gyrraedd y marc miliwn o lofnodion ym mis Mawrth.

Llwyddwyd i lywio camau olaf deddfwriaeth gyda phleidleisio rhithwir llawn am y tro cyntaf, a rhaid canmol swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Fusnes am fynd gam ymhellach i sicrhau bod y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) brys a oedd yn darparu ar gyfer symud dyddiad yr etholiad pe bai canllawiau iechyd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol yn derbyn Cydsyniad Brenhinol mewn modd amserol.

Wrth i'r sefyllfa iechyd y cyhoedd barhau i wella, gwnaed gwaith manwl i'n galluogi i ddychwelyd i Ystâd sy'n ddiogel o ran Covid, tra bod y Cynllun Peilot Llety dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn rhoi cynllun gwerthfawr inni ar gyfer sicrhau bod ein trefniadau gweithio hyblyg yn cael eu hategu gan gydraddoldeb a chynhwysiant heb gyfaddawdu ein dyletswydd i ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein henw da fel Senedd gynaliadwy, ac mae'r Strategaeth Carbon Niwtral a gwblhawyd yn ddiweddar ar gyfer 2021-2030 yn nodi'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd i ddod yn sefydliad mwy gwyrdd fyth. Drwy gydol y pandemig rydym wedi gweithredu i sicrhau'r effeithlonrwydd ynni mwyaf posibl ar draws yr Ystâd tra'i bod wedi bod yn wag i raddau helaeth.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi addasu ac arloesi drwy gynnal digwyddiadau rhithwir dros y 12 mis diwethaf, gan gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac adlewyrchu ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Daeth tymor cyntaf hynod lwyddiannus Senedd Ieuenctid Cymru i ben gyda chynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer yr etholiad i benderfynu ar y garfan newydd o seneddwyr ifanc.

Gyda Senedd newydd ar y ffordd ac o bosibl Llywodraeth a Chomisiwn newydd hefyd, gwn y byddwn yn galw ar ein holl egni fel un tîm i barhau i wasanaethu ein Senedd Cymru hyd eithaf ein gallu fel y gall, yn ei thro, wasanaethu pobl Cymru mor effeithiol â phosibl.

# Datganiad o ddiben

### Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

### Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

### Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Bumed Senedd

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

## EIN GWERTHOEDD

**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.

**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

### Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Bumed Senedd

- Caniatáu i'r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i'w cefnogi.
- Sicrhau bod gan y Senedd yr adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i'r DU ymadael â'r UE.
- Cefnogi'r Senedd yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru.
- Cynnal Senedd Ieuenctid uchelgeisiol a dymunol sy'n gwella'r Senedd ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Senedd a sut i gymryd rhan, a amlygir gan lefelau uwch o ymgysylltiad.
- Sicrhau y cyfoethogir gwaith ac enw da y Senedd, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd.
- Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn.
- Sicrhau y gall yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr weithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.
- Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn.

**BALCHDER**
Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.

**UN TÎM**
YDYM NI

# Comisiynwyr

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol i bobl Cymru.



**Elin Jones AS (Plaid Cymru)**

Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.

Mynychodd Elin Jones 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Suzy Davies AS (Ceidwadwyr Cymreig)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mynychodd Suzy Davies 8 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Senedd.

Mynychodd Joyce Watson 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.

Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd.  Mae gan bob aelod o'r Comisiwn bortffolio penodol o gyfrifoldebau.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i gwrdd yn rhithwir drwy gydol cyfnod y pandemig.  Mae'r Comisiynwyr wedi goruchwylio'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.



**David Rowlands AS (Plaid Brexit)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Senedd.

Mynychodd David Rowlands 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Mynychodd Rhun ap Iorwerth 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.

Yn dilyn Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, penodir Comisiynwyr y Chweched Senedd ym mis Mehefin / Gorffennaf.

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.



**Ann Beynon (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Ann ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC).

Mynychodd Ann Beynon 5 allan o 5 o gyfarfodydd ARAC a 4 allan o 4 o gyfarfodydd REWAC.



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o ARAC ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd REWAC.

Mynychodd Bob Evans 5 o 5 o gyfarfodydd ARAC.



**Ceri Hughes (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Ceri ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o REWAC.

Mynychodd Ceri Hughes 4 allan o 4 o gyfarfodydd REWAC.



**Sarah Pinch (Tachwedd 2018 - Heddiw)**

Dechreuodd Sarah ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae wedi'i phenodi'n gadeirydd REWAC.

Mynychodd Sarah Pinch 4 allan o 4 o gyfarfodydd REWAC.



**Dr Aled Eirug (Ebrill 2019 - Heddiw)**

Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac mae'n aelod o ARAC.

Mynychodd Aled Eirug 5 o 5 o gyfarfodydd ARAC.

Prif rôl y Cynghorwyr Annibynnol yw gweithredu fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu (REWAC) a helpu i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch-dîm rheoli'r Comisiwn yn cael eu cefnogi a'u herio'n adeiladol yn eu rolau. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafell fwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ar y lefelau uchaf, i helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau a meysydd gwasanaeth y Comisiwn, gan weithredu fel ffrindiau beirniadol ar brosiectau ac weithiau'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

Mae'r amrywiad yn nifer y cyfarfodydd oherwydd eu priod delerau swydd. Mae'r Cynghorwyr Annibynnol wedi parhau i gwrdd yn rhithwir drwy gydol cyfnod y pandemig.

## Tâl Cydnabyddiaeth

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn unol â nifer o eithriadau ac amodau. Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.



**Siwan Davies**
**Cyfarwyddwr Busnes**

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.



**David Tosh**
**Cyfarwyddwr Adnoddau**

Darparu swyddogaethau TGCh, Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, y Swyddfa Rhaglen a Newid, Diogelwch, Caffael a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Nia Morgan, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i David Tosh.



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r Byrddau corfforaethol a'r Comisiwn, yn ogystal â rheoli'r gwaith cyfieithu a chofnodi a'r cynllun ieithoedd swyddogol. Mae'n sicrhau bod ein gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.

# Trefniadau Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol a staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystâd, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.


Alfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn[1]. Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r Bwrdd Gweithredol ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant, a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r 15 Pennaeth Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Yn ystod y pandemig, cyflwynwyd sesiynau bob yn ail wythnos y Tîm Arwain a sesiynau deirgwaith yr wythnos y Bwrdd Gweithredol, yn ogystal â pharhau â'r cyfarfodydd ffurfiol, i sicrhau bod trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu yn amserol ac yn ddeinamig.

[1] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Y Swyddfa Rhaglen a Newid sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd.

# Strwythur llywodraethu




**Cyrff Cynghori Annibynnol**

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

Adolygu a monitro effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg

**Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu**

Cyfrifoldeb dros dâl uwch-swyddogion a goruchwylio'r strategaethau gweithlu ac ymgysylltu

# Cynllunio ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd

Mae Covid-19 wedi effeithio ar y Comisiwn, fel pob sefydliad arall yn y DU a ledled y byd.

Yn yr ychydig ddyddiau yn dilyn y cyfnod cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, roedd yn amlwg na fyddai'r Comisiwn yn gallu mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau, ac felly roedd angen cynllun dychwelyd i'r ystâd wedi'i gynllunio a'i gydgysylltu'n ofalus. Yn fuan, penododd y Bwrdd Gweithredol Reolwr Rhaglen, Cynghorydd ac Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd, a chawsant eu penodi o fewn y gweithlu presennol. Gan weithio gydag arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad, sefydlwyd tîm cyflenwi newydd, o fewn y gweithlu presennol, yn cynnwys chwe llif gwaith yn ymwneud â'r canlynol:

- Busnes y Senedd a'r dechnoleg sydd ei hangen i gefnogi busnes seneddol hanfodol.
- Ystâd y Senedd - sicrhau mynediad a defnydd diogel a rheoledig o'r ystâd yn unol â rheoliadau Covid.
- Pobl y Senedd - cefnogi iechyd a lles, polisïau a hyfforddiant i staff y Comisiwn.
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu - sicrhau bod anghenion Aelodau a staff y Comisiwn yn cael eu deall, ac y ceir trafodaethau rheolaidd ynghylch y cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd.
- Llywodraethu a Sicrwydd - sicrhau llywodraethu da wrth gydgysylltu rhaglenni, penderfyniadau a myfyrdodau rheolaidd.
- Dyfodol y Senedd - dysgu o'n profiadau a'n dealltwriaeth o gyfleoedd i gynllunio ar gyfer newidiadau tymor hwy (mae rhagor o wybodaeth am waith Dyfodol y Senedd ar gael ar dudalen 92).

Roedd y tasgau cychwynnol yn cynnwys gosod a chytuno â'r Comisiwn, yr egwyddorion a fyddai'n sail i gynlluniau,  sef:

- Mae diogelwch o'r pwys mwyaf a bydd lefelau risg yn cael eu gostwng i

gyn ised ag sy'n rhesymol ymarferol.

- Agor rhannau o'r ystâd, dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn ddiogel, a dim ond am gyhyd ag sydd ei angen.
- Cadw'r niferoedd ar yr ystâd i isafswm rhesymol.
- Cefnogi iechyd a lles staff y Comisiwn.
- Paratoi a chynefino staff ac Aelodau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd.
- Ymgysylltu a chyfathrebu â staff y Comisiwn, Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau drwyddi draw.


Roedd angen i'r rhaglen Dychwelyd i'r Ystâd fod yn hyblyg ac yn ymatebol i gynnal a llunio busnes rhithwir y Senedd sy'n esblygu. Yr unig ffordd o wneud hyn oedd dechrau cynllunio ar sail nifer o dybiaethau, gan gynnwys:

1. Byddai angen i'r rhaglen baratoi senarios ar gyfer dychwelyd yn raddol i ystâd y Senedd, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal y Cyfarfod Llawn ar ffurf hybrid.

2. Roeddem yn disgwyl busnes cynyddol a mwy amrywiol, yn enwedig o ddeddfwriaeth y Llywodraeth a chyfnod pontio'r UE yn ystod hydref 2020.

Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn i fodelu senarios, blaenoriaethu gweithgareddau, profi ffyrdd o feddwl a'n galluogi i 'flaengynllunio' y penderfyniadau y byddai angen eu gwneud i danategu newidiadau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed fel rhan o'r rhaglen Dychwelyd i'r Ystâd ar gael yn yr adran Dadansoddi Perfformiad.



# Crynodeb o’r Gweithgareddau

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 | Edrych ymlaen at 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf** | Caniatáu i'r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i'w cefnogi.<br>❶ ❷ ❸ ❹ ❺ | | Cynllunio'n effeithiol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd | Er mwyn cydgysylltu’r gwaith cynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r Chweched Senedd, ymhlith pethau eraill, mae gweithgor, Grŵp Senarios a Bwrdd Cynllunio Etholiadau wedi'u sefydlu sy'n trafod ystod eang o faterion mewn perthynas â'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, gan gynnwys monitro'r agos y risgiau cysylltiedig. | Gwerthuso’r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, gan gynnwys effeithiolrwydd cynefino a hyfforddi, cyngor a chanllawiau’r Aelodau |
| | | | Cyflymu'r adolygiad o gymorth i Bwyllgorau | Mae'r adolygiad o gymorth i Bwyllgorau wedi'i ymgorffori mewn gwaith cynllunio ar gyfer y Chweched Senedd. Byddwn yn ystyried gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'r safbwyntiau a'r penderfyniadau a wneir gan y Comisiwn newydd, y Pwyllgor Busnes a'r Cadeiryddion Pwyllgorau. Cynhelir adolygiad o strwythurau yn y Gyfarwyddiaeth Fusnes ochr yn ochr ag adolygiad capasiti ehangach. | |
| | Sicrhau bod gan y Senedd yr adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i'r DU ymadael â'r UE. | Newid cyfansoddiadol y DU | | Roedd blaengynllunio effeithlon gan y meysydd gwasanaeth yn sicrhau bod y Comisiwn yn cefnogi’r Senedd i ddylanwadu ar dirwedd gyfnasoddiadol esblygol y DU, craffu arni ac ymgysylltu â hi, a oedd yn arwain at ddiwedd cyfnod pontio’r UE ym mis Rhagfyr 2020. | |
| | Cefnogi'r Senedd yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru. | Diwygio cyfansoddiadol | | Daeth rhai o ddarpariaethau allweddol Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 i rym, a oedd yn cynnwys agor y gofrestr pleidleiswyr ar gyfer cyflwyno | |
| | | | | Pleidlais i bobl 16 oed yn etholiadau’r Senedd ac ailenwi’r Senedd i adlewyrchu ei phwerau a’i chyfrifoldebau newidiol yn well. | |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 | Edrych ymlaen at 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd** | Cynnal Senedd Ieuenctid uchelgeisiol a dymunol sy'n gwella'r Senedd ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. | Diogelu | | Daeth tymor dwy flynedd cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru i ben, gyda sesiwn ar y cyd ag Aelodau o'r Senedd. | |
| | Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Senedd a sut i gymryd rhan, a amlygir gan lefelau uwch o ymgysylltiad. 7 8 9 10 | | Ailffocysu gwasanaethau o amgylch ymgysylltu â'r cyhoedd gyda chanlyniadau clir | Yn ystod y pandemig, mae strategaeth y Comisiwn i wella sut mae'r Senedd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru wedi'i haddasu i ganolbwyntio ar gynnwys digidol, y cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltiad. At hynny, lansiwyd gwefan newydd y Senedd, gwefan ddeisebau newydd a system recriwtio sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl ymgysylltu â ni. | |
| | Sicrhau y cyfoethogir gwaith ac enw da y Senedd, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd. 6 | | | Yn ystod y pandemig rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â Seneddau eraill y DU, ac amryw seneddau dramor, i benderfynu beth y gallem ei ddysgu gan ein gilydd. | |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 | Edrych ymlaen at 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn.<br>⓬ | | Adnewyddu ymwybyddiaeth llywodraethu ar draws y sefydliad | Mae cyfarfodydd llywodraethu gyda phob Pennaeth Gwasanaeth wedi parhau. Mae'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn ystod y pandemig ac wedi arwain ar Ffrwd Gwaith Sicrwydd fel rhan o'r rhaglen ehangach ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd. | Sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio |
| | Sicrhau y gall yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr weithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.<br>⓭ ⓮ ⓯ | Effaith Covid-19<br>- Mynd yn groes i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ystod cyfarfodydd rhithwir<br>- Cyfnod Pontio Etholiad Senedd 2021<br>- Capasiti Corfforaethol<br><br>Urddas a pharch | Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19 | Cyflwynwyd llawer o newidiadau arloesol er mwyn cefnogi'r Senedd yn ystod y pandemig, gan gynnwys gweithio o bell, Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor rhithwir a hybrid, a digwyddiadau ac ymgysylltiad ar-lein. Cychwynnwyd llif gwaith 'Dyfodol' i fanteisio ar y dysgu a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn defnyddio'r profiadau a'r gwersi hyn i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i sicrhau hyblygrwydd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.<br><br>Cytunwyd ar God Ymddygiad newydd ar gyfer y Senedd, sy'n cynnwys egwyddor gyffredinol o barch. | Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19 |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 | Edrych ymlaen at 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Seiberddiogelwch | Gwaith parhaus o ran seiberddiogelwch ac adolygu diogelwch corfforol i fod yn ymwybodol o newid | Rydym wedi parhau i gryfhau ein trefniadau seiber-wytnwch ac rydym yn parhau i gyflwyno gwelliannau, cynnal profion dwys a mesur ein hunain yn erbyn safonau cydnabyddedig arfer gorau'r diwydiant. O ran diogelwch corfforol, bu'r Gwasanaeth Diogelwch yn canolbwyntio ar sicrhau bod holl ddefnyddwyr yr adeilad yn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol yn ystod y pandemig. | Gwaith parhaus yn ymwneud â seiber-wytnwch |
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn. ⓫ ⓰ ⓱ | Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data | Ailfywiogi ein hymdrechion ynghylch cydymffurfio â rheolau Diogelu Data/GDPR | Mae Gweithgor Llywodraethu Data wedi'i sefydlu sy'n trafod materion diogelu data arwyddocaol ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg. Yna trosglwyddir materion i'r Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth yn ôl yr angen. Penodwyd Dirprwy Swyddog Diogelu Data parhaol. | |
| | | Cefnogi'r contract ar gyfer y feddalwedd Legislative Workbench | Gwerthuso ein dull o reoli prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys effeithiolrwydd y Swyddfa Rhaglen a Newid | Gwerthusodd archwiliad mewnol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2020 effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau ar ôl creu'r Swyddfa Rhaglen a Newid yn 2019. Gwnaed gwelliannau yng nghysondeb achosion busnes ac adrodd ar brosiectau. Mae argymhellion yr archwiliad yn cael eu gweithredu i gryfhau llywodraethu ymhellach. Mae'r Swyddfa Rhaglen a Newid yn darparu gwelededd o gynnydd wrth gyflawni prosiectau ac mae wedi chwarae rhan fawr yn y rhaglen Dychwelyd i'r Ystâd. | |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 | Edrych ymlaen at 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | | | | | Dod â'r adolygiad capasiti i ben a dechrau gweithredu'r argymhellion yng nghyd-destun cyfyngiadau posibl ar y gyllideb/cyllideb dynnach ar gyfer 2022-23. |

Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol - Mae rhagor o wybodaeth am ein Dangosyddion ar gael ar dudalen 35.

1. Busnes seneddol wedi'i gynnal fel y'i trefnwyd
2. Cyhoeddwyd Cofnod y Trafodion o fewn y terfyn amser
3. Boddhad Aelodau/Staff Cymorth o ran cymorth seneddol
4. Boddhad Aelodau/Staff Cymorth o ran gweithio yn eu hiaith o ddewis
5. Darparu papurau dwyieithog
6. Ymgysylltiad rhyngwladol
7. Ymgysylltu â dinasyddion
8. Dilynwyr sianelau cyfryngau corfforaethol y Senedd
9. Cyrhaeddiad ymchwiliadau pwyllgor a lansio adroddiadau
10. Ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu'r cyfryngau
11. Alldro gweithredol
12. Arolwg staff
13. Dysgwyr y Gymraeg
14. Ceisiadau swyddi gan unigolion BAME
15. Cyfradd salwch staff
16. Allyriadau carbon
17. Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys risgiau penodol a ychwanegwyd yn ymwneud â Covid-19, wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad ar dudalen 44.  Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r camau lliniaru ar gyfer y risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2020-21 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 127.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.





# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig, ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd, a chaiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.


Mae'r pandemig Covid-19 wedi'i gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa sy'n newid ac mae rhai o'n ffyrdd o weithio wedi addasu o ganlyniad i hynny. Mae hyn wedi cael sgil-effaith wrth gofnodi rhai o'n dangosyddion perfformiad allweddol. Dylid cofio hyn wrth ddefnyddio data blynyddoedd blaenorol i gymharu'n uniongyrchol.


## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Oherwydd y pandemig, adolygwyd, cytunwyd neu diwygiwyd yr amserlenni ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau yn amlach gan y Pwyllgor Busnes. Felly, roedd rhai cyfarfodydd a fyddai fel arfer wedi'u trefnu, heb eu trefnu. Cynhaliwyd pob un o'r 63 Cyfarfod Llawn a drefnwyd o fewn gofynion statudol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal 37 o gyfarfodydd fel rhai cwbl rhithwir a 26 o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd hybrid. Roedd hyn hefyd yn cynnwys 3 Chyfarfod Llawn brys. O'r 370 o gyfarfodydd pwyllgor a drefnwyd, cynhaliwyd 368 yn ôl y bwriad, cynhaliwyd 1 cyfarfod ychwanegol a chanslwyd 3 oherwydd y pandemig. Cynhaliwyd pob cyfarfod pwyllgor yn rhithwir.

Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100 y cant drwy gydol y flwyddyn.




## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Cynhaliwyd arolwg boddhad Aelodau o'r Senedd a staff cymorth Aelodau rhwng mis Medi a mis Hydref 2020.  Efallai y bydd yr effaith ganlyniadol a gafodd y pandemig ar rai gwasanaethau wedi effeithio ar y sgorau a roddwyd.

Bu gostyngiad bach yn y sgôr cyfartalog ar gyfer darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf o gymharu â 2019, fodd bynnag, mae'r sgôr yn dal i fod yn uwch na'r targed o 8.0. Gwelwyd gostyngiad yn y sgôr cyfartalog ar gyfer cefnogi Aelodau i weithio yn eu dewis iaith, er ei fod yn dal i gyrraedd y targed.

Cynhyrchwyd yr holl bapurau a luniwyd ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn ddwyieithog. O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi'n fewnol yn ddwyieithog. O'r 1,768 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,352 yn ddwyieithog yn unol â chytundebau pwyllgorau unigol.



## Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Mae cyfyngiadau a rheoliadau'r pandemig yn golygu mai ychydig iawn o ymgysylltiadau corfforol mewnol ac allanol a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Roedd cau'r ystâd yn golygu na allai unrhyw deithiau, digwyddiadau nac ymweliadau addysgol ddigwydd. Felly roedd yn rhaid i ni addasu i ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Digwyddiadau ar-lein i nodi dyddiadau ac ymgyrchoedd allweddol - 1,566 o gyfranogwyr.
- Sesiynau gwybodaeth ar-lein, gan gynnwys sesiynau addysgol gyda phobl ifanc, gweithdai a chyflwyniadau - 8,709 o gyfranogwyr
- Profiad dysgu ar-lein a gyflwynwyd i grwpiau ar-lein gan ein Tywyswyr Teithiau - 435 o gyfranogwyr.

Gwnaethom hefyd lansio taith rithwir 360 gradd o amgylch y Senedd a datblygu orielau ar-lein ar gyfer arddangosfeydd, a dderbyniodd lawer o ddiddordeb ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ystâd.








## Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Roedd y diddordeb yn newid ein henw i Senedd Cymru, craffu ar benderfyniadau ynghylch y pandemig, a hyrwyddo ffynonellau gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt, wedi golygu bod mwy o bobl yn edrych ar ein sianelau cymdeithasol, gan arwain at gynnydd o 27 y cant yn ein dilynwyr ar draws prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Senedd (prif dudalennau Facebook Senedd Cymru/Welsh Parliament, sianelau Twitter, LinkedIn, Instagram ac YouTube). Gan ymateb i ddiddordeb y cyhoedd, gwnaethom roi mwy o sylw i sesiynau'r Cyfarfod Llawn, gan rannu gwybodaeth amserol ac esboniadol am y prif feysydd craffu mewn ffordd glir a chryno.

Yn sgil y pandemig, cafodd gwaith pwyllgorau ei atal ym mis Mawrth hyd at ddiwedd mis Ebrill 2020 ac felly, nid oedd gweithgarwch pwyllgorau i'w hyrwyddo. Yn hytrach, canolbwyntiwyd ar sicrhau'n rhagweithiol bod y cyfryngau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Senedd i'r pandemig, gyda briffiau wythnosol a throsolwg yn cael ei gyhoeddi am waith craffu a oedd i ddod ar Covid. Arweiniodd hyn at fwy o ddiddordeb gan y cyfryngau mewn gwylio cyfarfodydd y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn a chael eu straeon o hynny, ac ymgysylltodd sefydliadau cyfryngau newydd â'n gwaith. Cafwyd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2020, yn bennaf gan fod sawl adroddiad pwyllgor wedi'u hoedi oherwydd Covid, yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau'n ymwneud â Covid.




## Defnyddio adnoddau'n ddoeth


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Mae'r alldro gweithredol diwedd y flwyddyn o fewn y targed cyllideb weithredol a gymeradwywyd gan y Comisiwn. Mae ein cyfrifon diamod wedi eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyflwynwyd arolwg staff blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2020 drwy arbenigwr arolwg annibynnol. Rydym ni, ynghyd â Senedd yr Alban, wedi disodli'r Sgôr Ymgysylltu gyda'r Sgôr Hapusrwydd yn y Gweithle, sef fframwaith sy'n mesur y canlynol: ymgysylltu â chyflogeion, hapusrwydd a lles, gwobr a chydnabyddiaeth, rhannu gwybodaeth, grymuso, ennyn balchder a boddhad swydd. Er na ellir eu cymharu'n uniongyrchol, mae sgorau Ymgysylltu blynyddoedd blaenorol y Comisiwn, ynghyd â meincnod Sgôr Ymgysylltu Canolrifol y Gwasanaeth Sifil (63 y cant a adroddwyd ym mis Mawrth 2020), wedi'u cynnwys yma i ddarparu parhad.

Drwy'r pandemig mae dosbarthiadau Cymraeg wedi parhau i gael eu cyflwyno, er eu bod yn rhithwir. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau personol dysgwyr unigol, er enghraifft, gydag addysg gartref a gweithio oriau gwahanol, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr Cymraeg.








## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Ein targed yw cynyddu nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan unigolion sy'n nodi eu bod o gefndir Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dros y Bumed Senedd, rydym wedi dyblu nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n nodi eu bod yn BAME, o 32 (4.8 y cant) yn 2016 i 64 (7.7 y cant) yn 2021.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y cyfraddau absenoldeb salwch o fewn y Comisiwn, gan adlewyrchu'r duedd a welir gan sefydliadau ledled y DU. Er y gallai'r feirws fod wedi arwain at absenoldeb salwch ychwanegol o fewn y Comisiwn, ymddengys bod mesurau fel gweithio diogel o ran Covid, i gefnogi gweithgareddau gwaith hybrid hanfodol, a lefelau sylweddol o weithio gartref wedi helpu i leihau achosion eraill o absenoldeb, sydd bellach yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus.




## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Ein targed yw lleihau cyfanswm ein hallyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio ceir busnes i fod yn is na llinell sylfaen 2017-2018 o 67 y cant. Mewn blwyddyn eithriadol oherwydd cyfyngiadau a rheoliadau'r pandemig, gostyngodd hawliadau teithio busnes gan 90 y cant. Fodd bynnag, gan fod pobl yn cael eu hannog i beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er diogelwch Covid, cynyddodd canran y hawliadau hynny am ddefnyddio car preifat yn sylweddol.




## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

Mae'r pandemig wedi effeithio ar rywfaint o'n gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Oherwydd cau'r ystâd, ni fu bron unrhyw wariant drwy'r contract arlwyo, na thrwy ein contractwr Darlledu. Fodd bynnag, mae gwariant Cymru drwy'r contract Rheoli Cyfleusterau wedi cynyddu wrth i gyflenwyr o Gymru lwyddo i sicrhau cyfleoedd cadwyn gyflenwi ac rydym wedi cael llwyddiant wrth ddyfarnu contractau eraill i gyflenwyr o Gymru. Mae hyn wedi arwain at C4 cryf ac wedi helpu i leihau'r effaith gyffredinol



# Proffil Risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol, sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion am y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 127.

Ar ddechrau 2020-21, roedd y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol yn cynnwys rhai risgiau arwyddocaol.  Er gwaethaf ffocws craff ar gamau lliniaru, mae'r risgiau hyn wedi aros ar y Gofrestr oherwydd eu difrifoldeb parhaus (yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl) ac yn bennaf oherwydd dylanwadau allanol nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, os o gwbl.

- Effaith Covid-19

Ym mis Mawrth 2020 crëwyd risg gorfforaethol drosfwaol[2] i fapio effaith Covid-19.  Roedd hyn yn darparu gwelededd o'r camau lliniaru a oedd yn cael eu cyflwyno i leihau'r effaith cyn belled ag y bo modd a sicrhau bod busnes y Senedd yn parhau i fynd rhagddo.  Roedd y risg hon yn cynnwys llu o risgiau cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â risg uwch o seiber-ymosodiadau a thwyll.

Hefyd adolygwyd a diweddarwyd risgiau eraill ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth[3] i adlewyrchu effaith y pandemig, gan groesgyfeirio at risg gorfforaethol Covid-19.  Wrth i risgiau arwyddocaol eraill sy'n gysylltiedig â Covid ddod i'r amlwg, cynhaliwyd a chofnodwyd asesiadau ar wahân.  Roedd y rhain yn cynnwys: y potensial i fynd yn groes i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ystod cyfarfodydd rhithwir; caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o symud dyddiad Etholiadau Senedd 2021; ac effaith cyfyngiadau symud estynedig ar ein capasiti corfforaethol i gyflawni amcanion a darparu gwasanaethau.

[2] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion alllweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad.

[3] Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth

Roedd rheoli'r risg yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau ynghylch diogelwch a lles a sicrhau bod busnes allweddol y Senedd yn parhau i fynd rhagddo.

- Urddas a pharch a safonau ymddygiad yr Aelodau

Mae polisïau Urddas a Pharch y Comisiwn wedi'u hadolygu ac mae camau sy'n deillio o arolygon ymwybyddiaeth ymhlith staff y Comisiwn yn cael eu dwyn ymlaen. Cytunwyd ar God Ymddygiad newydd ar gyfer y Senedd. Mae'n cynnwys egwyddor o barch, sy'n nodi'r angen i drin pawb â pharch fel gofyniad allweddol i Aelodau o'r Senedd, ac y dylent osod esiampl mewn bywyd cyhoeddus.

- Newid cyfansoddiadol y DU

Newidiodd ffocws y risg hon o'r DU yn ymadael â'r UE i newidiadau cyfansoddiadol ehangach yn y DU. Roedd rheolaeth barhaus y risg yn allweddol i sicrhau y gallai'r Comisiwn ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r Senedd.

- Seiberddiogelwch

Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun rheolaeth, codi ymwybyddiaeth, gwella a monitro'n gyson, gyda diweddariadau manwl rheolaidd ar liniaru yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn faes sy'n destun gwaith archwilio a chraffu annibynnol rheolaidd, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn.

- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data

Roedd ailflaenoriaethu adnoddau yn cryfhau'r broses o liniaru'r risg hon. Mae hyn wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig gyda newidiadau radical yn ein dulliau o gasglu a defnyddio gwybodaeth.

Roedd newidiadau eraill i'r proffil risg yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dileu'r risgiau a ganlyn o'r Gofrestr o Risgiau Corfforaethol wrth i brosiectau ac amcanion gael eu cyflawni neu wrth i'r rheolaethau gael eu cryfhau. Cafodd pob un o'r risgiau hyn eu lliniaru'n llwyddiannus. Mae unrhyw risgiau sy'n weddill yn parhau i gael eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth.

- Diwygio cyfansoddiadol

Cyflawnwyd amcanion diwygio, yn benodol o ran y newid enw a gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed, yn llwyddiannus drwy fabwysiadu strwythurau llywodraethu effeithiol a rheoli risg.

- Diogelu

Cryfhawyd y rheolaethau yn ystod y flwyddyn, drwy flaenoriaethu adnoddau, i liniaru'r risgiau’n ymwneud â diogelu pobl ifanc sy’n ymgysylltu â busnes y Senedd, yn bersonol ac o bell.

- Cefnogi trefniadau contract ar gyfer y feddalwedd Legislative Workbench

Gwnaeth y rheolaethau a roddwyd ar waith wella diogelwch y system a dyfarnwyd y contract ar gyfer system newydd.

# Adolygiad Ariannol

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd, fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Bob pum mlynedd mae pennawd gwariant ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Mae'r term 'Gwariant a Reolir yn Flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EM ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

**Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn**

| | 2016-17 £m | 2017-18 £m | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb weithredol (Nodyn 1) | 36 | 37 | 38 | 40 | 42 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 15 | 16 | 16 | 16 | 16 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | 56 | 54 | 55 | 58 | 61 |

Nodyn 1 - Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir)

| Dadansoddiad o'r Gyllideb Weithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol:** | **2016-17 £m** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff (Nodyn 2) | 20 | 21 | 23 | 25 | 26 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 13 | 13 | 12 | 12 | 13 |
| Cronfa prosiectau | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 |
| | 36 | 37 | 38 | 40 | 42 |

Nodyn 2 - Mae'r newid rhwng 2018-19 a 2019-20 mewn costau sy'n gysylltiedig â staff yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwr a osodwyd gan Drysorlys EM.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid. Ers 2019-20 mae'r gyllideb wedi cynnwys Cronfa Prosiectau ddynodedig. Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

| Cyfanswm Gwariant y Comisiwn – y Bumed Senedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17 £m** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** |
| Gwariant gweithredol | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 14 | 14 | 15 | 15 | 16 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1 | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 55 | 54 | 54 | 56 | 60 |
| Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan/(drosodd) | 1.0 | - | 1.0 | 2.0 | 1.0 |

Mae'r Comisiwn yn rheoli ei gyllideb ariannol yn agos. Mae'r tanwariant uwch yn 2019-20 yn rhannol oherwydd y pandemig Covid-19 a oedd yn golygu nad aeth nifer o brosiectau a gynlluniwyd ar gyfer pedwerydd chwarter y flwyddyn honno yn eu blaenau.

| Dadansoddiad o'r Gwariant Gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o wariant gweithredol:** | **2016-17 £m** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff (Nodyn 2) | 20 | 22 | 24 | 24 | 25 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 16 | 13 | 12 | 13 | 14 |
| Cronfa prosiectau | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 |
| | 38 | 38 | 39 | 40 | 42 |
| Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol - o dan/(drosodd) | (2) | (1) | (1) | - | - |

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol.

Yr alldro gweithredol ar gyfer 2020-21 yw 1.0 y cant ac mae o fewn ystod y targed.

Cyn 2019-20 nid oedd gan y Comisiwn Gronfa Prosiectau bwrpasol. Yn lle hynny, defnyddiwyd tanwariant a gynhyrchwyd o benawdau eraill y gyllideb i ychwanegu at y gronfa adnoddau gweithredol.

| Alldro 2020-21 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiant £m** | **Amrywiant %** |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 26 | 25 | 1 | 1.0% |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 13 | 14 | (1) | (1.1%) |
| Cronfa prosiectau | 1 | 1 | 0 | - |
| Costau etholiad | 1 | 0 | 1 | - |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | 2 | 2 | 0 | - |
| Cyfanswm y gweithgaredd gweithredol | 43 | 42 | 1 | 1.0% |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 16 | 16 | 0 | - |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 2 | 2 | 0 | - |
| | 61 | 60 | 1 | 1.0% |

Yn 2020-21 roedd rheoli arian mewn modd manwl a chall yn golygu y cafodd costau na ragwelwyd eu gwrthbwyso gan arbedion yn gysylltiedig â Covid-19. Roedd yr arbedion hyn hefyd yn galluogi gwaith â blaeoriaeth i fynd rhagddo, gan sicrhau bod y cynllun Ystadau 10 mlynedd yn parhau ar y trywydd cywir.

## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN

**10 Nifer y dadleuon Aelodau unigol**

**63 Nifer y Cyfarfodydd Llawn**

## CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y CYFARFOD LLAWN

**23 Amserol**

**701 Llafar**

**2,544 Ysgrifenedig**

**2 Brys**

# Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd.

## CEFNOGI DEDDFWRIAETH



Cyflwyno **2** Bil newydd



**4** Bil wedi'u pasio i ddod yn ddeddfau

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU



**368** Cyfarfodydd Pwyllgor



**122** Adroddiadau pwyllgorau


Cofiwch chwarae'ch rhan a chadw pawb yn ddiogel
—
Play your part and keep everyone safe
2m
Cadwch bellter diogel
—
Keep a safe distance
Golchwch eich dwylo'n rheolaidd
—
Wash your hands regularly
Peidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb
—
Avoid touching your face
Ceisiwch osgoi lleoedd llawn pobl
—
Avoid crowded areas
Senedd Cymru

# Cynnal Busnes y Senedd yn ystod y pandemig

Roedd buddsoddiad mewn technoleg, ynghyd ag agwedd 'digidol yn ddiofyn' tuag at fusnes ers 1999, yn galluogi'r Comisiwn i addasu'n gyflym ac yn effeithiol i ffyrdd newydd o weithio. Canolbwyntiwyd ar wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol, cyfathrebu clir, defnydd effeithlon o alluoedd digidol, a diogelwch, iechyd a lles pawb.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd amlinellwyd sut roedd y Comisiwn wedi ymateb i'r pandemig Covid-19 gan gyflwyno'r Cyfarfod Llawn ar-lein, a galluogi'r Senedd i barhau â'i gwaith ac i fod y Senedd gyntaf yn y DU i gwrdd yn rhithwir pan gynghorwyd pob un ohonom i weithio gartref. Eleni, y flaenoriaeth fu dychwelyd i 'fusnes fel arfer' gymaint ag y gallem, er bod y ffocws ar gyfer pob math o fusnes ffurfiol wedi bod, yn anochel, yn ymwneud â'r pandemig. Mae hyn wedi golygu ehangu'r busnes a gyflwynir yn y Cyfarfod Llawn a galluogi cyfarfodydd pwyllgorau rhithiwr er mwyn caniatáu i'r gwaith craffu barhau.

## Y Cyfarfod Llawn

Cafodd rheolau sefydlog brys, ar gyfer parhad y Senedd yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd, drwy hwyluso trafodion rhithwir a hybrid ar gyfer y Cyfarfod Llawn, eu cwblhau mewn dau ddiwrnod, a'u derbyn a'u profi mewn cyfarfod corfforol ar 24 Mawrth 2020. Roedd y rheolau sefydlog brys hyn yn darparu ar gyfer darpariaethau adalw newydd, cworwm llai, hyblygrwydd o ran mynediad y cyhoedd, a phleidleisio wedi'i bwysoli. Y cyfarfod hwnnw ar 24 Mawrth, gyda llai o Aelodau yn bresennol, oedd y tro diwethaf i Aelodau gwrdd yn gorfforol yn y Siambr am bron i bedwar mis. Gyda dim ond pum diwrnod o rybudd, darparodd swyddogion y Comisiwn gyfarfod rhithwir o'r Senedd y dydd Mercher canlynol ar 1 Ebrill.

Ym mis Ebrill a mis Mai gwelwyd newidiadau i weithrediad y Cyfarfod Llawn rhithwir wrth i'r Aelodau a swyddogion ddysgu o brofiad ac addasu yn unol â hynny. Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd, sy'n ystyried trefn busnes,

gynnydd graddol yn nifer yr Aelodau sy'n gallu mynychu Cyfarfod Llawn rhithwir ac, o 1 Mehefin, gallai unrhyw Aelod a oedd yn dymuno mynychu wneud hynny.

Sefydlwyd patrwm o un Cyfarfod Llawn rhithwir bob wythnos. Roedd busnes craidd yn cynnwys datganiadau'r Llywodraeth ar Covid-19, gyda chwestiynau gan arweinwyr y pleidiau ac Aelodau eraill, ac ystyried deddfwriaeth i gymeradwyo rheoliadau Covid-19.

Dros amser, ehangwyd yr ystod busnes i gynnwys materion y tu hwnt i Covid-19:

- ar 4 Mai, ailgyflwynwyd Cwestiynau Amserol, gan alluogi Aelodau i holi Gweinidogion ynghylch materion nad ydynt fel arall ar yr agenda;
- un awr o amser anllywodraethol yr wythnos - dadleuon yr wrthblaid fel arfer - wedi'i threfnu o 3 Mehefin, gyda'r amod gan y Pwyllgor Busnes i ddechrau bod yn rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â Covid-19; a
- phenderfynodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes fel sy'n ofynnol gan y rheolau sefydlog brys, ailgyflwyno cwestiynau llafar i'r holl Weinidogion o 24 Mehefin ar ôl absenoldeb o dri mis.

## Cyfarfodydd hybrid

Ym mis Gorffennaf, gwelwyd camau cyntaf gofalus y 'normal newydd': y Senedd yn cwrdd ar ffurf hybrid gyda phleidleisio electronig o bell, a phwyllgorau'n cyfarfod yn rhithwir.

Roedd angen meddwl yn ofalus er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn caniatáu cynnal trafodion yn ddi-dor, gan gysylltu Aelodau o bob cwr o'r wlad â'r rhai yn y Siambr. Roedd yn hanfodol bod cyfarfodydd yn parhau i gael eu darlledu ar Senedd TV ac ar sianel YouTube seneddol.

Cynhaliwyd profion trylwyr ar amrywiol lwyfannau a chymwysiadau i ddatblygu system i gefnogi ffrwd sain ddwyieithog yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ganiatáu i Aelodau gyfrannu, ac i wylwyr wylio, yn eu dewis iaith, ac a oedd yn caniatáu i'r cyfranwyr symud yn esmwyth o un iaith i'r llall heb effeithio ar lif y trafodion.

Ysgogodd hyn lawer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat i gysylltu â Chomisiwn y Senedd i gael cyngor ac arweiniad ar gynnal eu cyfarfodydd dwyieithog eu hunain.

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf gweithredodd y Senedd system 'pleidleisio wedi'i bwysoli' a oedd yn golygu bod un Aelod o bob plaid yn pleidleisio ar ran eu holl Aelodau. Roedd Aelodau annibynnol yn gallu bwrw eu pleidleisiau eu hunain hefyd. Er mai mesur dros dro oedd hwn, roedd cydnabyddiaeth gynnar ymhlith y Pwyllgor Busnes a'r Aelodau y dylem ddychwelyd i bleidleisio unigol cyn gynted â phosibl, yn enwedig ar ôl i'r Senedd ddychwelyd i ystyried deddfwriaeth sylfaenol. Dechreuodd swyddogion weithio ar system newydd er mwyn galluogi Aelodau i bleidleisio'n unigol ac o bell. Erbyn canol mis Mehefin, roedd cynnydd yn ddigon datblygedig i'r Pwyllgor Busnes gytuno mewn egwyddor i gyflwyno'r system newydd a chynnig newidiadau pellach dros dro i reolau sefydlog er mwyn caniatáu i Aelodau 'bleidleisio'n electronig o unrhyw leoliad'.

Un o'r prif heriau gyda'r datblygiad oedd diogelu cywirdeb y bleidlais. Roedd yn hanfodol sicrhau mai dim ond y rhai sydd â hawl i bleidleisio a allai wneud hynny ac mai dim ond unwaith y byddai pleidlais yn cael ei chofnodi. Gan ddefnyddio technolegau presennol crëwyd cymhwysiad ar-lein. Roedd hyn yn caniatáu i'r Aelodau bleidleisio'n ddiogel, gan ddefnyddio eu dewis o ddyfais yn eu lleoliad o ddewis.

Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd y Llywodraeth yn trefnu mwy o fusnes nad oedd yn ymwneud â Covid-19. Wrth i fusnes ehangu y tu hwnt i raglen frys, roedd y Llywydd yn awyddus i'r Senedd dreialu cyfarfodydd hybrid cyn toriad yr haf, fel bod gan rai Aelodau yr opsiwn o fynychu'r Senedd wrth i'r cyfyngiadau symud lacio.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y ddau Gyfarfod Llawn olaf sydd wedi'u trefnu cyn y toriad, ar 8 a 15 Gorffennaf, mewn fformat hybrid. Cytunwyd y gallai 20 o Aelodau fod yn bresennol yn gorfforol yn y Siambr. Byddai'r holl Aelodau eraill yn gallu cymryd rhan yn rhithwir drwy Zoom. Defnyddiwyd pleidleisio electronig o bell am y tro cyntaf ar 8 Gorffennaf.

Ar 13 Gorffennaf, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Senedd, o fis Medi ymlaen, yn dychwelyd i'w phatrwm arferol o ddau Gyfarfod Llawn yr wythnos ac amserlen fusnes 'normal', a rhagwelodd y byddai'r Cyfarfod Llawn mewn fformat hybrid hyd y gellir rhagweld. Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes egwyddorion y byddai'r Llywydd yn eu defnyddio wrth benderfynu fformat y Cyfarfod Llawn yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau lleol a chenedlaethol, yn amrywio o rai corfforol, i fodelau amrywiol o ffurf hybrid, i gyfarfodydd cwbl rithwir.

# Pwyllgorau: gweithio rhithwir

Cyn y pandemig, roedd pwyllgorau'r Senedd, o bryd i'w gilydd, wedi cyfarfod mewn fformat hybrid gyda rhai Aelodau a thystion yn cymryd rhan drwy fideo neu telegynhadledd.  Fodd bynnag, roedd adleoli holl drafodion y pwyllgor i'r gofod rhithwir yn ystod y pandemig yn ddigynsail.

Er mwyn helpu i gefnogi'r newid hwn, ar 17 Mawrth 2020, roedd y Pwyllgor Busnes o'r farn 'y dylai'r pwyllgorau, am y dyfodol, ganolbwyntio ar fusnes hanfodol'.

Er bod pwyllgorau yn endidau awtonomaidd sy'n penderfynu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain, arweiniodd barn y Pwyllgor Busnes, ynghyd ag ymwybyddiaeth ymhlith Cadeiryddion Pwyllgorau, Aelodau a swyddogion y byddai ffocws gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar unwaith ar reoli'r pandemig, at fwyafrif helaeth y pwyllgorau yn oedi'r holl waith nad oedd yn gysylltiedig â Covid-19.  Yn fuan ar ôl dechrau cyfyngiadau symud, adolygwyd amserlen y pwyllgorau mewn ymateb i gau'r ystâd a'r angen i flaenoriaethu adnoddau technegol i gefnogi busnes y Cyfarfod Llawn.



Yn ystod y cyfnod hwn, bu Cadeiryddion Pwyllgorau yn gweithio gyda'i gilydd i gydgysylltu gwaith craffu ar draws pwyllgorau, gan gytuno'n benodol ar ddull ar gyfer Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar gynlluniau adfer Covid-19 ac i wneud y defnydd gorau o amser yr Aelodau a'r Gweinidogion.

Mabwysiadodd pob pwyllgor ei ddull ei hun o graffu i adlewyrchu ei gyfrifoldebau portffolio. Lansiodd mwyafrif y pwyllgorau ymchwiliadau cyffredinol Covid-19 i gwmpasu pob mater yn eu cylch gwaith, gan gynnwys galwadau treigl am dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan Weinidogion a rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, tan ganol mis Mehefin, roedd cyfyngiadau technolegol a chapasiti gweithio o bell yn atal mwy nag un cyfarfod cyhoeddus rhag digwydd ar y tro. Roedd hyn yn lleihau'r amser cyfarfod ar gael, gan arwain at ddewisiadau anodd ynglŷn â chymryd tystiolaeth ac amser tystion.

Erbyn mis Medi 2020, roedd pwyllgorau'n gallu dychwelyd i batrwm wythnosol o gyfarfodydd ac ystod ehangach o fusnesau, er bod craffu ar faterion yn ymwneud â Covid-19 a deddfwriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Rhoddwyd cyfleusterau ar waith i alluogi cyfarfodydd pwyllgor hybrid. Fodd bynnag, mae ailgyflwyno cyfyngiadau Covid-19 o fis Medi 2020 ymlaen, ochr yn ochr â boddhad cyffredinol yr Aelodau â'r fformat rhithwir, wedi golygu nad yw'r fformat hybrid wedi'i ddefnyddio hyd yma ar gyfer pwyllgorau. Pan fo'n briodol, disgwylir i'r model hwn ddod yn un o'r opsiynau arferol sydd ar gael i bwyllgorau ar gyfer y Chweched Senedd.

# Mohammad Asghar AS

Ar 16 Mehefin 2020, yn drist iawn bu inni golli un o'n Haelodau o'r Senedd, Mohammad Asghar AS.




Cafodd Mohammad Asghar (Oscar) AS ei ethol y tro cyntaf yn Aelod dros Ddwyrain De Cymru yn 2007, gan ei wneud yr Aelod cyntaf o leiafrif ethnig a'r Mwslim cyntaf.

Ymhlith y teyrngedau a wnaed yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mehefin, dywedodd Paul Davies AS:

> *Roedd Mohammad Asghar, neu Oscar, fel yr oeddem i gyd yn ei adnabod, yn ddyn o gynhesrwydd a charedigrwydd aruthrol, dyn a oedd mor barchus eithriadol ohonom ni i gyd, dyn a ymroddodd ei fywyd i gyfoethogi a chefnogi'r rhai o'i gwmpas, a dyn, ag yntau mor llawn o fywyd ei hun, a wnaeth gymaint i helpu pobl ledled Cymru.*

Dywedodd Elin Jones AS, y Llywydd:

> *Mae'r golled yn un greulon o sydyn. Mi oedd Oscar yn gynrychiolydd balch o'i blaid, ei ranbarth a'i wlad.*
>
> *[...]*
>
> *Rhyng-genedlaetholwr oedd Oscar, a gwnaeth y gorau o gyfleoedd i godi pontydd â gwledydd, crefyddau a diwylliannau eraill ac i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd.*



Mohammad Asghar (ail o'r dde) gydag aelodau eraill o'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ymweld â Chanolfan Cynnal a Chadw British Airways yng Nghaerdydd, Medi 2018.

# Rôl ddeddfwriaethol y Senedd yn ystod y pandemig Covid-19

Mae cefnogi'r Senedd a'i phwyllgorau i graffu ar ddeddfwriaeth yn rôl allweddol i staff y Comisiwn. O'r herwydd, gwneir ymdrechion sylweddol i sicrhau bod Meysydd Gwasanaeth yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod capasiti ac arbenigedd ar gael pan fo angen i hwyluso gwaith craffu o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Pan aeth Cymru i mewn i'w chyfnod clo cychwynnol ym mis Mawrth 2020, roedd ychydig dros 12 mis ar ôl tan ddiwedd y sesiwn seneddol. Ar y pryd roedd pedwar Bil Llywodraeth Cymru gerbron y Senedd, ac roedd disgwyl i sawl un arall gael eu cyflwyno cyn toriad yr haf fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

At hynny, roedd disgwyl y byddai angen ystyried nifer sylweddol o ddeddfwriaeth yn deillio o'r broses Ymadael â'r UE yn ystod y cyfnod pontio (ac yn syth ar ôl ymadael), er bod ffurf y ddeddfwriaeth honno'n dal i fod yn ansicr ac yn ddibynnol ar ganlyniad nifer o senarios Cytundeb/Dim Cytundeb posibl.

Fodd bynnag, oherwydd Covid-19, roedd yn angenrheidiol i Feysydd Gwasanaeth addasu'n gyflym iawn, nid yn unig i ffordd newydd o weithio, ond hefyd i agenda ddeddfwriaethol newydd i sicrhau bod cymorth seneddol o'r radd flaenaf yn cael ei gynnal.

Parhaodd y gwaith yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ymadael â'r UE - a oedd â'i derfynau amser caled ei hun - drwy gydol y cyfnod, er ei fod yn unol ag amserlen anrhagweladwy. Roedd y gwaith hwn yn bodloni'r disgwyliadau, nid yn unig o ran maint a chymhlethdod, ond hefyd ansicrwydd yr amserlen yr oedd yn ofynnol i bwyllgorau weithio iddi.

Mae rhagor o wybodaeth am Gyfnod Pontio'r UE ar gael ar dudalennau 64.

# Deddfwriaeth yn ymwneud â Covid-19

Yn ystod mis Ebrill 2020, adolygodd Llywodraeth Cymru ei dull o ran deddfwriaeth yng nghyd-destun y pandemig, gan arwain at wthio'r gwaith o ystyried rhai Biliau yn ôl yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac ni ddatblygwyd Biliau eraill. Drwy gydol y cyfnod hwn, addasodd rhaglenni gwaith pwyllgorau'n unol â'r sefyllfa, a defnyddiwyd adnoddau'r Comisiwn yn hyblyg i sicrhau bod y lefelau angenrheidiol o gymorth staff ar gael i bwyllgorau bob amser.

Mae mesurau deddfwriaethol wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Covid-19 drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r rhain wedi dod i rym i raddau helaeth ar fyr rybudd, gyda rhai yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd cyn pen 28 diwrnod.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn craffu ar yr holl 'is-ddeddfwriaeth' o'r math hwn. Hyd at 31 Mawrth 2021, roedd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi craffu ar Offerynnau Statudol yn gysylltiedig â Covid fel a ganlyn:

- adroddwyd ar 144 o Offerynnau Statudol;
- arweiniodd hyn at 383 o bwyntiau adrodd (61 mater technegol a 322 o ran rhinwedd).
- mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb i 144 o'r pwyntiau adrodd yn unol â cheisiadau a wnaed gan y Pwyllgor.

Ni ellir gorbwysleisio maint ac anhawster y dasg hon, yn enwedig pan fo rhaid ymgymryd â hi ochr yn ochr â'r gwaith yn ymwneud ag Ymadael â'r UE a busnes rheolaidd (craffu ar Filiau, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, Offerynnau Statudol nad ydynt yn gysylltiedig â Covid), ynghyd â bod mewn amgylchedd rhithwir anghyfarwydd. Mae maint, cymhlethdod ac amlder yr Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Covid wedi'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adleoli adnoddau o Feysydd Gwasanaeth eraill i gefnogi'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, heb sôn am gryn ymroddiad a gwaith caled gan staff arbenigol ac Aelodau'r Pwyllgorau.

Yng nghyd-destun argyfwng iechyd y cyhoedd cenedlaethol sy'n datblygu'n gyflym, lle mae angen drafftio deddfwriaeth mewn meysydd anodd a dadleuol i derfynau amser tyn iawn, mae gwerth gwaith craffu manwl gan y pwyllgor wedi cael ei gydnabod yn rheolaidd gan Weinidogion Cymru ac Aelodau o'r Senedd.

# Yr UE – trefniadau pontio

Roedd y Comisiwn yn cefnogi'r Senedd i ddylanwadu, craffu ac ymgysylltu â'r prosesau a oedd yn arwain at ddiwedd cyfnod pontio'r UE ym mis Rhagfyr 2020. Roedd gwaith cynllunio effeithlon ymlaen llaw gan y Meysydd Gwasanaeth yn sicrhau bod y Comisiwn yn barod ar gyfer ystod lawn y canlyniadau negodi posibl rhwng y DU a'r UE.

Roedd rhan fawr o waith deddfwriaethol pwyllgor y Senedd yn canolbwyntio ar graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn meysydd yn ymwneud â'r DU yn ymadael â'r UE. Roedd y Memoranda i gyd yn ymwneud â Biliau dadleuol yn gysylltiedig â Brexit, ac roedd angen ystyriaeth fanwl ac arbenigol gan nifer o bwyllgorau – y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – er mwyn llywio dadleuon ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol perthnasol yn y Cyfarfod Llawn.

Roedd Bil Masnach a Deddf Marchnad Fewnol 2020 Llywodraeth y DU yn ddarnau mawr o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn ac ymatebodd staff y Comisiwn yn gyflym i welliannau a wnaed i'r Biliau hyn wrth iddynt fynd drwy'r Senedd er mwyn cynnig cymorth llawn i Aelodau, gan ddarparu deunydd briffio ysgrifenedig a llafar. Gwnaeth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol sylwadau cryf ar y setliad datganoli a buddiannau Cymru pan oedd yn ystyried Bil Marchnad Fewnol y DU.

Defnyddiwyd arbenigedd allanol gan academyddion ac arbenigwyr drwy Fframwaith Academaidd Brexit y Comisiwn hefyd er mwyn helpu i gefnogi gwaith pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad arbenigol o'r sail gyfreithiol ar gyfer perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol, Deddf Marchnad Fewnol y DU, Fframweithiau Cyffredin, cytundebau masnach ryngwladol, masnach ddigidol a chywerthedd ar ôl Brexit ac ymgysylltiad y DU ag asiantaethau'r UE ar ôl Brexit.

Cymerodd y Comisiwn fesurau i edrych eto ar waith llywodraethu a goruchwylio gweithgarwch pontio'r UE, ac i sicrhau y gallai barhau i gefnogi'r Senedd er gwaethaf unrhyw effaith o ganlyniad ymadawiad y DU.  Fel rhan o hyn, adolygodd y Comisiwn ei gadwyni cyflenwi TGCh ac ystadau, a rhoddodd rôl ganolog i'w Dîm Arwain o ran monitro paratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.  Roedd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn a'i Gynghorwyr Annibynnol yn craffu ar y trefniadau hyn.

Roedd y gweithgaredd hwn yn golygu bod y Comisiwn mewn sefyllfa dda ar ddiwedd y cyfnod pontio, gyda chynlluniau wedi'u rhoi ar waith rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i helpu gyda'r gwaith o adalw'r Senedd i graffu ar ganlyniad y trafodaethau rhwng y DU a'r UE a chynnal dadl ar hynny.






Trosolwg
Dadansoddiad o berfformiad
Atebolrwydd
Datganiadau ariannol




# Diwygio cyfansoddiadol

Eleni daeth rhai o ddarpariaethau allweddol Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 i rym. Roedd y rhain yn cynnwys agor y gofrestr pleidleiswyr er mwyn cyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed yn etholiadau'r Senedd – y cynnydd mwyaf i'r etholfraint mewn hanner canrif – ac ailenwi'r Senedd i adlewyrchu ei phwerau a'i chyfrifoldebau newydd yn well.

## Oedran pleidleisio

The Bydd pobl 16 a 17 oed yn cael pleidleisio, am y tro cyntaf, yn etholiadau'r Senedd yn 2021. Cafodd y gofrestr etholiadol ei hagor i bobl iau am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2020. Er mwyn hyrwyddo hyn, lluniodd a chyhoeddodd y Comisiwn ystod o adnoddau addysgol a hyrwyddodd y gofrestr pleidleiswyr i'r rhai sy'n newydd i'r etholfraint gyda'r nod o greu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u hawl i bleidleisio.


Roedd rhaid ailystyried y gwaith hwn oherwydd cyfyngiadau Covid-19, gan symud yn gyflym i gyfres o adnoddau ar-lein, gan gynnwys adnoddau ar gyfer athrawon a myfyrwyr sydd ar gael drwy Hwb, sef y wefan adnoddau addysgol ledled Cymru.



Pleidlais Vote 16

Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y gymuned etholiadol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, yn ogystal â chydweithwyr mewn llywodraeth leol ac yn Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cymaint â phosibl yn gweld yr adnoddau, a sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o roi gwybod i bobl iau am eu hawliau newydd, gan leihau'r posibilrwydd o orgyffwrdd adnoddau a drysu pleidleiswyr.

Cynhaliwyd wythnos 'Pleidlais16' ym mis Chwefror 2021 i hyrwyddo'r adnoddau ymhellach a helpu i ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc cyn yr etholiad.



## Newid Enw

Ar 6 Mai 2020 newidiwyd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. Roedd gweithredu'r newid enw yn brosiect ar draws y Senedd, a oedd yn gofyn am ymgysylltiad a chyfranogiad gweithredol staff ar draws holl Feysydd Gwasanaeth y Comisiwn.

Wrth i'r pandemig Covid-19 daro, roedd angen addasu'r dull cyflwyno yn sylweddol er mwyn ystyried y newid mewn amgylchiadau – o ddealltwriaeth ac adroddiadau yn y cyfryngau o'r enw newydd, i'r diweddariadau cynhwysfawr i wefan ac arwyddion, parthau a systemau meddalwedd y Senedd. Cafodd y newidiadau eu cyflwyno yn effeithiol ac ar yr amser priodol.

Drwy weithio'n agos gyda phartneriaid, mae'r Comisiwn wedi sicrhau cyd-ddealltwriaeth glir o oblygiadau'r newid i'r Senedd. Mae'r defnydd o'r enw newydd wedi bod yn eang ar draws y cyfryngau yn genedlaethol ac ar draws y DU, yn ogystal â gan y cyhoedd yn ehangach.

Gwnaeth Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Senedd, a chael ei ariannu ganddi ar gyfer etholiadau a refferenda datganoledig. Sefydlodd y Senedd Bwyllgor y Llywydd i graffu ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru.

## Diwygio'r Senedd

Sefydlwyd Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd ym mis Medi 2019 i archwilio argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Diddymwyd y Pwyllgor ym mis Hydref 2020 yn dilyn dadl ar ei adroddiad, sef 'Diwygio'r Senedd: y Camau Nesaf', a oedd yn argymell y dylid cyflwyno deddfwriaeth yn fuan ar ôl etholiad 2021 i:

- gynyddu maint y Senedd i fod rhwng 80 a 90 Aelod (o'r 60 presennol), gan ddod i rym o etholiad 2026 ymlaen;
- cyflwyno system etholiadol Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy; a
- sefydlu trefniadau ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd.

Nid oedd y Pwyllgor yn cynnwys aelodau o bob plaid y Bumed Senedd. Penderfynodd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd i beidio â chymryd rhan yn y Pwyllgor, a phenderfynodd Plaid Brexit i dynnu'n ôl cyn i'r Pwyllgor ddod i ben â'r gwaith.



# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

## Ar 10 Chwefror 2021, pasiodd y Senedd Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) Llywodraeth Cymru

Ei diben oedd lliniaru'r risgiau posibl i Etholiad Senedd 2021 yn sgil Covid-19, er mwyn sicrhau etholiad diogel a theg. Dywedodd y Llywodraeth mai ei nod pennaf oedd i'r etholiad fynd yn ei flaen ar 6 Mai 2021 fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf gyfres o fesurau wrth gefn pe bai amgylchiadau o ran iechyd y cyhoedd yn gofyn amdanynt, gan gynnwys:

- Byrhau'r cyfnod diddymu i ddechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad;
- Y pŵer i amrywio dyddiad yr etholiad hyd at chwe mis; ac
- Ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid i'r Senedd gynnal ei chyfarfod cyntaf o'i fewn.

Roedd y darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gael eu gwneud i fynd i'r afael â'r mater bod rhai Aelodau yn parhau i fod yn Aelodau tra hefyd yn ymgeiswyr etholiadol yn ystod cyfnod yr etholiad (sydd fel arfer yn cyd-fynd â'r diddymiad), gan barchu'r angen i sicrhau chwarae teg i bob ymgeisydd.

Cytunodd Comisiwn y Senedd ar gyfres o benderfyniadau yn seiliedig ar yr egwyddor sef, yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad (y cyfnod o dair wythnos cyn y diddymiad byrrach, pan fyddai'r Senedd fel arfer wedi'i diddymu), y dylid ond darparu'r adnoddau hynny sy'n angenrheidiol i gynnal busnes y Senedd yn ymwneud â'r diben o fyrhau'r diddymiad, hynny yw:

- Gallu gohirio'r etholiad am reswm yn ymwneud â'r coronafeirws; a
- Galluogi'r Senedd i ymateb, os bydd angen, i'r materion o ran iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

# Gwasanaethau dwyieithog

## Oherwydd cynllunio parhad busnes, roeddem mewn sefyllfa gref i allu parhau i ddarparu ein gwasanaethau dwyieithog ac roeddem yn gallu newid i ddarpariaeth rithwir yn ddidrafferth ac yn gyflym.

Y Senedd oedd un o'r deddfwrfeydd cyntaf yn y byd i symud i gynnal cyfarfodydd rhithwir llawn gan gynnwys cyfieithu ar y pryd yn ein darpariaeth o'r cychwyn cyntaf. Fe'n defnyddiwyd fel astudiaeth achos yn Nodyn Cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar gynnal Cyfarfodydd Fideo Dwyieithog ac rydym yn parhau i ddarparu cyngor ymarferol i sefydliadau ledled Cymru ar ddarparu cyfieithu ar y pryd fel rhan o drafodion rhithiwr. Bu achlysuron pan na lwyddwyd i ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn rhai cyfarfodydd neu ddigwyddiadau oherwydd natur gyfrinachol y trafodaethau a'r pryderon diogelwch ynghylch y llwyfannau a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ddatrys ar ôl i'r feddalwedd uwchraddio yn ddiweddar gan roi mwy o sicrwydd o ran diogelwch sy'n caniatáu inni ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gais. Defnyddiwyd system Risg a Sicrwydd Comisiwn y Senedd i nodi camau gweithredu a lliniaru, ac i fonitro a rhoi sicrwydd ar y mater hwn ar bob lefel.

Yn unol â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae gwasanaethau newydd ac wedi'u haddasu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu datblygu'n ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig yn rhagweithiol. Pan na fu'n bosibl sicrhau darpariaeth ddwyieithog, gwnaed pob ymdrech i gynnig dewis i ddefnyddwyr barhau naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi bod yn monitro ein gwasanaethau dwyieithog ac yn cynghori cydweithwyr ym mhob rhan o'r Senedd. Mae'r ychydig achlysuron pan yr oedd hi'n amhosibl cyrraedd y safonau a nodir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi'u cofnodi a chymerwyd camau i osgoi'r materion hyn yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi bod yn gweithio ar baratoadau ar gyfer y Chweched Senedd. Cafwyd trafodaethau er mwyn canfod y meysydd darparu gwasanaethau dwyieithog sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, a meysydd i'w gwella o bosibl. Mae fersiwn ddrafft o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno a cheir cytundeb cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad. Mae ein cymorth hyfforddiant sgiliau iaith hefyd wedi'i adolygu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn hyblyg ac wedi'i theilwra'n benodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y misoedd nesaf.

## ALLGYMORTH AC YMGYSYLLTU

**748**

Nifer yr ymweliadau â'r **daith rithwir 360 gradd o'r Senedd**

Bu **435 o bobl** yn bresennol yn ein cyflwyniadau Cyflwyniad i'r Senedd ar-lein

GWLAD

Denodd digwyddiadau GWLAD ar-lein **282** o bobl nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen

## Y PWYLLGOR DEISEBAU

# UN MILIWN

Cyfanswm y llofnodion ar ddeisebau yn ystod y Bumed Senedd

Roedd y **ddeiseb fwyaf** yn ymwneud â Covid-19 a chafodd **67,940** o lofnodion

# Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith a'i gwneud yn fwy hygyrch i holl bobl Cymru.



# Gwefannau newydd y Senedd

Ar ôl dwy flynedd o waith datblygu, gan gynnwys ymgynghoriadau, arolygon, casglu gofynion, gweithdai, datblygu 12 persona, creu 4 dyluniad cychwynnol, 27 wythnos o sbrintiau datblygu, a llawer iawn o brofion, aeth gwefan newydd y Senedd yn fyw ar 17 Rhagfyr 2020.


Ar yr hen wefan, roedd defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r hyn yr oeddent yn edrych amdano, felly mae'r wefan newydd yn canolbwyntio ar chwilio, ac mae wedi'i hadeiladu gyda thaith y defnyddiwr mewn golwg. Mae hefyd wedi'i adeiladu gyda dyfeisiadau symudol mewn golwg – gyda bron i 50 y cant o'r ymweliadau bellach yn cael eu gwneud ar ddyfeisiau symudol.

Symudodd tîm prosiect y wefan dros 350,000 o ddogfennau (gan gynnwys ffeiliau PDF, eitemau cyfryngau, delweddau, ac allbynnau cyfarfod) i'r wefan newydd a hyfforddi dros 150 o staff y Comisiwn fel golygyddion i sicrhau bod gan bob rhan o'r sefydliad y sgiliau i adeiladu a diweddaru tudalennau. Ddiwedd mis Ionawr trosglwyddodd tîm y prosiect y cyfrifoldeb dros y wefan i Fwrdd Golygyddol newydd i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol a sicrhau bod buddion y wefan newydd yn parhau i gael eu mesur a'u gwireddu.



Mae adborth cynnar wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda defnyddwyr yn nodi eu bod yn hoffi'r wedd newydd, gan ei ddisgrifio yn 'ffres' a 'glân', a rhoi sylwadau ar gymaint haws yw llywio a dod o hyd i bethau.

Nid y brif wefan oedd yr unig beth newydd i gael ei lansio eleni, wrth i'r Comisiwn ymdrechu i sicrhau bod ymgysylltu â gwaith y Senedd yn haws i bawb.  Mae gwefan deisebau newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2020, wedi ei gwneud yn haws i bawb greu a llofnodi deisebau.  Ers ei lansio, mae nifer cyfartalog y llofnodion fesul deiseb wedi cynyddu 45 y cant, gyda deiseb Covid-19 yn sicrhau'r nifer fwyaf o lofnodion ar ddeiseb i'r Senedd (67,940).  Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y deisebau a gyflwynwyd, sydd wedi'i ysgogi yn rhannol gan reoliadau Covid-19, gyda bron cymaint o ddeisebau derbyniadwy wedi'u cyflwyno yn 2020 (222) ag yn ystod pedair blynedd gyntaf y Bumed Senedd gyda'i gilydd (236).  Yn ystod y Bumed Senedd, gyda'i gilydd, derbyniodd y deisebau hyn dros 1 miliwn o lofnodion.




Cafwyd system recriwtio newydd ar-lein hefyd ym mis Hydref, gan ei gwneud yn haws i bobl ymgeisio am swyddi gyda'r Comisiwn, ac yn haws i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith recriwtio i reoli'r broses.

Gallwch weld y wefan newydd yn https://senedd.cymru a https://senedd.wales.

# SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Daeth tymor dwy flynedd cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru i ben ar 24 Chwefror 2021, gyda sesiwn ar y cyd ag Aelodau o'r Senedd. Yn ystod y sesiwn nododd y Senedd fod gwaith y seneddwyr ifanc yn un o lwyddiannau mawr y Bumed Senedd.*


Roedd y seremoni yn nodi diwedd blwyddyn gyffrous a oedd yn cynnwys:

- Symud pob cyfarfod a digwyddiad ar-lein mewn ymateb i'r pandemig;
- Cynnal wythnos Senedd Ieuenctid Cymru – rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu rhithwir i bobl ifanc ar faterion allweddol;
- Llunio a chyhoeddi adroddiad ar Sbwriel a Gwastraff Plastig;
- Llunio a chyhoeddi adroddiad ar Gymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl;
- Adolygu a diweddaru gwaith a gyhoeddwyd yn flaenorol ar Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm;
- Cynnal sesiynau rheolaidd gyda Gweinidogion Cymru i ofyn cwestiynau gan bobl ifanc ar ran bobl ifanc – yn enwedig yn ymwneud â Covid-19 ac arholiadau; a
- Chydweithio â'r Comisiynydd Plant ar arolygu effaith Covid-19 ar bobl ifanc.

Mae'r gwaith bellach yn dechrau adolygu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda, a'r hyn y gellir ei wella yn barod ar gyfer yr ail Senedd Ieuenctid Cymru. Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr o Brifysgol Bangor i wneud y gwaith hwn.

Yn ystod yr haf, rydym yn bwriadu agor enwebiadau ar gyfer y 60 aelod nesaf o Senedd Ieuenctid Cymru, gydag etholiadau yn yr hydref a'r cyfarfod cyntaf yn gynnar yn 2022.




WELSH
YOUTH
PARLIAMENT
CYMRU

Trosolwg
Dadansoddiad o berfformiad
Atebolrwydd
Datganiadau ariannol


# Allgymorth ac ymgysylltu


## Daeth cyfyngiadau yn sgil Covid-19 â newidiadau radical i'r ffordd y mae'r Senedd yn ymgysylltu â phobl Cymru.

Oherwydd bod adeilad y Senedd ar gau i'r cyhoedd gwnaethom addasu ein gwaith allgymorth ac ymgysylltu i sicrhau y gallem barhau i ymgysylltu â phobl ac y gallent dal i ddysgu am waith y Senedd, hyd yn oed tra bod y drysau ar gau. Er enghraifft, roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnwys taflenni gwaith gyda phecynnau prydau ysgol am ddim i blant a phobl ifanc (i'w dychwelyd drwy amlenni rhagdaledig), er mwyn iddynt dynnu lluniau neu ysgrifennu straeon byrion am eu profiadau. Datblygwyd Taith Rithwir 360 gradd o'r Senedd, darparwyd cyflwyniadau ar-lein rheolaidd yn rhoi cyflwyniad i'r Senedd, a symudwyd arddangosfeydd a fyddai wedi digwydd y tu mewn i'r Senedd i Instagram ac i'n gwefan. Cafwyd bron i 750 o ymweliadau unigol â'r Daith Rithwir ac mae dros 400 wedi gwylio'r cyflwyniadau ar-lein. Roedd un o'r arddangosfeydd a ddatblygwyd yn amlygu'r cyfraniadau a wnaeth Hyrwyddwyr Cymunedol a enwebwyd gan Aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – roedd dros 850,000 (sef 5 gwaith yn fwy na phost arferol) wedi'i weld ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Ymweld.



## Hyrwyddwyr Cymunedol yn y Senedd





Roedd y strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd yn ceisio cynnwys profiadau byw y cyhoedd ar gyfer ymchwiliadau'r Pwyllgor fel rhan o'n cyfryngau cymdeithasol a'n gwaith cyfathrebu. Er bod cyfweliadau ffisegol wedi bod yn her yn ystod y pandemig, roedd ymgysylltiad rhithwir yn cynnig cyfleoedd newydd.

Roedd gŵyl gyntaf GWLAD yn 2019 yn nodi 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru gyda chyfres o ddigwyddiadau yn arddangos adeilad y Senedd, ac yn gwahodd siaradwyr, digrifwyr a cherddorion i berfformio.

Ar gyfer 2020 roedd ailadrodd yr union beth yn amhosibl.  Fel gyda chymaint o'n gweithgarwch ymgysylltu, defnyddiwyd cyfarfodydd ar-lein er mwyn i bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd.

Yn ail ŵyl GWLAD, ffurfiwyd partneriaethau gydag ystod o sefydliadau mewn ymgais i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.  Roedd y rhaglen yn llwyfan i amrywiaeth o bobl – pobl ifanc, perchnogion busnes, gwleidyddion, diddanwyr, ymgyrchwyr, a gweithwyr allweddol – i drafod profiadau a rhannu meddyliau a syniadau ar ffyrdd o lunio Cymru sy'n gydnerth ac yn fwy cyfartal ar gyfer y dyfodol.

Llwyddodd y rhaglen o 8 digwyddiad i ddenu dros 563 o bobl i gofrestru, gan gynnwys 282 nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.  Roedd y digwyddiadau'n ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys yr amgylchedd, digartrefedd ymhlith pobl ifanc, cymunedau gwledig, busnes a'r celfyddydau a buont yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru gan gynnwys Llamau, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.






## GWLAD 2019

- Nid oedd 30 y cant wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen
- Dywedodd 22 y cant eu bod yn wleidyddol ddifater / sylwedyddion gwleidyddol

## GWLAD 2020

- Nid oedd 50 y cant wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen
- Dywedodd 61 y cant eu bod yn wleidyddol ddifater / sylwedyddion gwleidyddol

Buom hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd i gynnig digwyddiadau a chyfleoedd ar-lein fel rhan o'u gwaith o symud i ddigwyddiadau ar-lein, a byddwn yn gweithio i ddatblygu cynigion tebyg yn ystod y misoedd nesaf, gan na fydd y digwyddiadau cenedlaethol hyn yn cael eu cynnal yn y ffordd draddodiadol unwaith eto.

## CYFRIFOLDEB ARIANNOL

Alldro gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn **1%**

## GWASANAETH YMCHWIL

Cafodd safleoedd blog ein Gwasanaeth Ymchwil dros **130,000** o ymwelwyr rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020

## EIN STAFF

Eleni, gwnaethom gyflawni **Safon Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl**

Arolygon Pwls Llesiant

Mae **95%** y cant o ymatebwyr wedi teimlo eu bod yn wybodus

## CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

Div **100%** o wastraff wedi'i ddargyfeirio i ffwrdd oddi wrth safleoedd tirlenwi am y **drydedd flwyddyn yn olynol**

Mae ein gwenyn wedi dyblu faint o fêl y maent wedi'i gynhyrchu eleni. Mae'r Pierhead bellach yn gartref i **dri** chwch gwenyn a thua **100,000** o wenyn

# Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Platinum
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Platinwm

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU 2020

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU TOP 100 EMPLOYERS CYMRU 2020

Stonewall CANMOLIAETH PERFFORMWYR DISGLAIR STAR PERFORMER COMMENDATION 2019

Stonewall PRIF GYFLOGWR CYNHWYSOLTRAWS TOP TRANS INCLUSIVE EMPLOYER 2019

disability confident EMPLOYER

LOUDER THAN WORDS

ACTION ON HEARING LOSS
A national charity since 1911

TOP 10 EMPLOYER for Working Families 2020

working families
changing the way we live and work

autism friendly
awtistiaeth gyfeillgar


Y Siambr
Sgrîn prawf sefydlog
Peidiwch a defnyddio'r sleid yma ar gyfer graddnodi
-
Main Chamber
Static test screen
Do not use for calibration

# Cynnal busnes yn ystod y pandemig

Er mwyn sicrhau ymateb effeithlon a gwybodus i alwadau newidiol ar ein hadnoddau, mae gwaith cynllunio a pharatoi effeithiol wedi bod yn nodweddion pwysig o'n dull yn ystod y cyfnod anodd hwn. Staff y Comisiwn yw'r adnodd pwysicaf wrth gefnogi Aelodau a helpu pobl Cymru i ymgysylltu â'u Senedd.

In Cyn y cyfnod clo roeddem yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r feirws.  Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom y canlynol:

- ymgysylltu â Seneddau eraill y DU a dechrau cael galwadau cynadledda rheolaidd i benderfynu beth y gallem ei ddysgu oddi wrth ein gilydd a chymharu nodiadau;
- ailflaenoriaethu adnoddau i sicrhau bod ein contractwyr glanhau yn cynyddu eu gweithdrefnau glanhau gan ganolbwyntio'n ychwanegol ar lanhau dwfn mewn ardaloedd cyswllt uchel/ardaloedd a gaiff eu cyffwrdd yn aml a chael sicrwydd y gallai cyflenwadau digonol o hylif diheintio barhau i fod ar gael;
- sefydlu is-grŵp o'r Tîm Arwain i arwain ein hagwedd tuag at y pandemig yn y tymor byr;
- sicrhau bod pob Maes Gwasanaeth wedi diweddaru eu cynlluniau Parhad Busnes;
- cyflwyno sesiynau briffio dyddiol i staff, datblygu micro safle ar y fewnrwyd ar Covid a llunio Cwestiynau Cyffredin;
- llunio matrics gwneud penderfyniadau gyda nifer o sbardunau a oedd yn nodi pa benderfyniadau yr oedd angen eu gwneud pryd a chan bwy;
- cynnal cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ddydd Llun 16 Mawrth a wnaeth nifer o argymhellion i'r Comisiwn ac, wedi hynny, gwnaeth y Comisiwn nifer o benderfyniadau yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar yr un diwrnod; a
- chlustnodi 20 Mawrth fel y diwrnod y dylai'r holl staff weithio gartref i brofi'r capasiti.

## Gwneud penderfyniadau a llywodraethu

O 23 Mawrth 2020, mae mwyafrif helaeth y staff wedi parhau i weithio gartref a thrwy'r cyfnod hwn rydym wedi parhau i gynnal trefniadau llywodraethu cyson a chryf. Cyflwynwyd sesiynau dal i fyny'r Bwrdd Gweithredol deirgwaith yr wythnos a sesiynau'r Tîm Arwain bob yn ail wythnos yn ogystal â pharhau â'r cyfarfodydd ffurfiol. Mae'r Comisiwn, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu hefyd wedi parhau i gyfarfod yn rhithwir drwy gydol cyfnod y pandemig ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein dull parhaus.

## Cynllunio, rheoli a darparu parhad busnes

Dechreuodd gwaith cynllunio parhad busnes y Comisiwn yn gyflym ar ddechrau'r pandemig i hwyluso cyfnod clo wedi'i reoli a threfniadau pontio i weithio'n rhithwir. Mae gwaith cynllunio sylweddol wedi parhau ar draws ystod o wahanol feysydd, gan gynnwys ein dull o ymgysylltu â staff ac Aelodau, sut rydym yn addasu polisïau Adnoddau Dynol a gwerthuso'r ffordd orau i ni ddefnyddio ein hadnoddau ariannol, dynol a thechnolegol drwy'r cyfnod.

Mae gan y Strategaeth TGCh, y cytunwyd arni yn 2018, egwyddorion ystwythder a hyblygrwydd yn greiddiol iddi. Roedd mabwysiadu gwasanaethau cwmwl, ynghyd â'r caledwedd a'r feddalwedd sydd eu hangen i gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn ddiogel, yn golygu bod y Senedd mewn sefyllfa dda i ymateb yn gyflym i'r newidiadau sy'n angenrheidiol mewn arferion gwaith yn sgil y pandemig. Mae wedi sicrhau bod gennym offer priodol i helpu staff i weithio gartref, ac mae gan y mwyafrif o staff liniaduron bellach sy'n gallu cysylltu'n hawdd â'n rhwydwaith a chyrchu cyfres o becynnau Microsoft Office 365.

Mae staff y Comisiwn wedi bod yn hyblyg iawn ac yn barod i addasu yn ystod y cyfnod, gan weithio'n gyflym a sicrhau canlyniadau yn gyson. Mae'r cyfnod wedi helpu i ysgogi arloesedd go iawn mewn meysydd fel darlledu, cyflwyno'r Cyfarfod Llawn, darparu Swyddfa Gyflwyno rithwir (drwy ddefnyddio'r porth a oedd eisoes wedi'i gyflwyno) a chynnig cyfleusterau llyfrgell rithwir i Aelodau.

Mae gwaith helaeth o gynllunio'r gweithlu a nodi staff a gweithgareddau yn gritigol wedi helpu i ddatblygu mesurau parhad busnes. Lle bo angen, rydym wedi blaenoriaethu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Covid a chefnogi gweithgarwch yn ymwneud â'r Cyfarfod Llawn a phwyllgorau. Oherwydd natur eu gwaith, mae'n anochel bod rhai Meysydd Gwasanaeth wedi gweld eu llwyth gwaith yn cynyddu tra bod eraill wedi gweld eu llwyth gwaith yn

lleihau. Rydym wedi adleoli staff i ddarparu cymorth a gwydnwch i'r meysydd hynny sydd â mwy o waith.

Mae'r cyfnod clo hefyd wedi rhoi cyfle gwych i ni fabwysiadu Microsoft Office 365. Roedd prif ffrydio'r defnydd o Teams, SharePoint a llwyfannau tebyg wedi gwella ein gallu a'n parodrwydd i weithio ar y cyd yn fawr. Addaswyd gwasanaethau cymorth yn gyflym i sicrhau bod y lefel gywir o hyfforddiant a chefnogaeth ar gael i staff y Comisiwn ac Aelodau.

## Llesiant

Mae llesiant staff y Comisiwn wedi bod wrth wraidd dull y Comisiwn o ymdrin â'r pandemig, p'un a yw pobl yn gweithio yn yr adeilad neu o'u cartref.

- Mae trefniadau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i amddiffyn pobl sy'n gweithio yn yr adeilad, gan gynnwys mwy o lanhau mewn mannau risg uchel/cyswllt uchel, cyflwyno hylif diheintio dwylo a chadachau ym mhob mynedfa i'r adeilad, cyflwyno systemau unffordd a chyfundrefnau cadw pellter cymdeithasol o fewn adeiladau a defnyddio'r teclyn archebu ac olrhain niferoedd ar y safle electronig i sicrhau bod y nifer sy'n cael bod yn yr adeilad yn cael ei reoli'n effeithiol.
- Mae'r Timau Adnoddau Dynol ac Ystadau wedi gweithio'n agos i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos priodol.
- Cydnabyddir y risgiau o staff yn gweithio gartref o ran ynysu, iechyd meddwl a chorfforol a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae canllawiau wedi'u darparu i staff, fel sesiynau hyfforddi a llesiant staff sy'n cynnwys cynghorion iechyd meddwl a chorfforol; canllawiau gan gynnwys ioga swyddfa a fideos ymarfer corff; lincs i adnoddau MIND a phecyn cymorth iechyd meddwl y Senedd; cynghorion ar gyfer cynnal iechyd meddwl wrth deimlo'n ynysig; yn ogystal â darparu cymorth iechyd galwedigaethol os oes angen.
- Ymysg y cymorth ehangach roedd gwybodaeth i unrhyw un sy'n wynebu profi cam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo, canllawiau i staff sy'n gweithio gartref gyda phlant, cymorth profedigaeth a'r gallu i staff weithio o'r swyddfa lle nad yw'n bosibl iddynt weithio gartref am resymau technegol neu oherwydd lleoliad.
- Gwnaed newidiadau dros dro i'n polisïau pobl i sicrhau bod staff yn cael digon o gefnogaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn. Mae'r Comisiwn wedi mynd ati i annog cydbwysedd o weithio hyblyg gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a llesiant, yn hytrach nag oriau gwaith yn unig. Mae hyn wedi galluogi staff i ddod o hyd i'w rhythm eu hunain o ran gweithio, cyfrifoldebau gofalu ac addysg gartref.

- Mae gweithdrefnau priodol wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cynnal asesiadau risg manwl, cyn i staff ddychwelyd ar sail gyfyngedig i'r ystâd.
- Cynhaliwyd Arolygon Parhad Busnes a Pwls Llesiant yn rheolaidd ac mae hynny wedi caniatáu inni sicrhau llesiant ein staff, tra hefyd yn llywio'r broses flaenoriaethu a'n gwydnwch o ran parhad busnes.

## Cynnal cyfathrebiadau

O ddechrau'r pandemig, mae cyfathrebu â staff, Aelodau a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn rhan bwysig o'n gwaith i reoli ein hymateb i'r cyfnod digynsail hwn. Yn gynnar, gwnaethom nodi iechyd, diogelwch a llesiant holl ddefnyddwyr yr adeilad fel blaenoriaeth ar gyfer gwaith craffu effeithiol a dyma un o'r rhesymau dros ein cyfathrebiadau.

Rydym wedi cynyddu ein dulliau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol a'n strwythurau gwneud penderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd byrrach ond mwy rheolaidd o'r Bwrdd Gweithredol a'r tîm Arwain, cyfarfodydd Partneriaeth Undebau Llafur ddwywaith yr wythnos a blaenoriaethu cyfathrebu tîm gan reolwyr llinell.

Ddiwedd mis Chwefror 2020, sefydlwyd grŵp cyfathrebu dyddiol. Mae'r grŵp hwn yn darparu cyfathrebiadau rheolaidd i staff ar y datblygiadau diweddaraf, penderfyniadau polisi, Cwestiynau Cyffredin, y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa o ran gwaith, gofal iechyd, symptomau posibl a threfniadau gweithio gartref. Ar yr un pryd datblygwyd tudalennau canolog a ddyluniwyd yn benodol ar y fewnrwyd sy'n gweithredu fel llyfrgell ar gyfer y diweddariadau hyn, ynghyd â darparu gwybodaeth bellach am hyfforddiant, cymorth llesiant a chanllawiau perthnasol. Roedd adborth o'n Harolygon Pwls Llesiant chwe wythnos yn nodi bod staff yn teimlo eu bod mewn cyswllt da â'u timau, bod rheolwyr yn cyfathrebu'n dda, a bod y sefydliad yn gofalu am eu llesiant. Mae'r arolygon wedi dangos yn barhaus bod 95 y cant o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am sut mae'r sefydliad yn ymateb i Covid-19.

Mae'r holl gyfathrebiadau mewnol hyn wedi dod â phobl yn agosach at ei gilydd ar adeg pan ydym wedi ein gwahanu'n gorfforol. Mae hefyd wedi bod yn bwysig cynnal rhywfaint o ryngweithio cymdeithasol ac mae dyfodiad mentrau fel cyfarfodydd holl staff dros Zoom wedi gwneud hyn yn bosibl. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddod â staff yn agosach at ei gilydd a meithrin egwyddor Un Tîm ar gyfer y sefydliad.

Mae cyfathrebu parhaus a rheolaidd gydag Aelodau wedi parhau i fod yn bwysig drwy gydol y cyfnod.  Ochr yn ochr â'r diweddariadau perthnasol i staff a'r micro safle Covid-19 ar y fewnrwyd cafwyd fersiwn i Aelodau a'u staff sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt hefyd.  Mae'n cynnwys manylion am faterion fel paratoi i ddychwelyd i'r ystâd, canllawiau ar ddychwelyd i swyddfeydd etholaethol a blogiau a dogfennau briffio wedi'u paratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau i'w helpu gydag unrhyw gwestiynau posibl gan etholwyr ynghylch y feirws.

Yn ogystal, rydym wedi paratoi i gyfathrebu â'n contractwyr i sicrhau bod disgwyliadau yn cael eu bodloni a'u bod yn ymwybodol o unrhyw faterion. Rydym wedi rhannu gwybodaeth, fel canllawiau ac asesiadau risg, ac wedi sicrhau eu bod yn cael eu rhannu ag isgontractwyr yn ôl yr angen.  Mae'r cyfathrebu a'r rhannu gwybodaeth cyson hwn wedi bod yn allweddol yn ein cynorthwyo i gynnal Cyfarfod Llawn hybrid ac i barhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gydol y cyfnod.

Rydym hefyd wedi defnyddio ein rhwydweithiau seneddol yn effeithiol yn ystod y cyfnod ac wedi cynnal sgyrsiau ynghylch parhad busnes, Adnoddau Dynol, ac Iechyd a Diogelwch, sydd wedi bod o fudd i'r ddwy ochr.

Ers dechrau'r cyfnod clo, mae ystâd y Senedd yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, ac mae gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, fel teithiau ysgol a digwyddiadau a noddir gan Aelodau, wedi dod i ben.  Rhoddwyd pwyslais newydd ar ymgysylltu digidol.  Wrth edrych ar draws ein holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol rydym wedi gweld bod nifer y defnyddwyr sy'n ymgysylltu â ni wedi dyblu ac mae ein cyrhaeddiad ar Facebook wedi treblu.  Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi ystod o faterion yn ymwneud â'r feirws drwy gydol y cyfnod, a rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2020, roedd bron i 130,000 o bobl wedi edrych ar ein safleoedd blog Cymraeg a Saesneg, ac mae nifer cyfartalog yr ymweliadau dyddiol wedi dyblu.

# Adleoli staff y Comisiwn

Roedd y cyfyngiadau symud a gweithio gartref, fel rhywun sy'n gweithio mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd, yn anodd.

[...] Newidiodd hyn yn fawr imi pan gefais fy ngwahodd i gymryd rhan yng Nghronfa Benthyg Staff y Comisiwn, a chefais fynd ar secondiad i adran a oedd angen cymorth ychwanegol.

Nid yn unig yr oedd yn braf bod yn brysur eto, ond mae wedi bod yn brofiad gwych gweld sut mae Comisiwn y Senedd yn gweithio o safbwynt gwahanol, i weld bod y diwylliant gwaith anhygoel yma yn parhau ar draws yr adrannau, ac i brofi i fy hun y galla i addasu mewn amgylchiadau anodd, a chael rhai profiadau gwerthfawr iawn o hynny.

**David Lakin**
**Trosglwyddodd o'r Gwasanaethau Ymgysylltu i'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol**

Yn gyntaf, mae mor frwdfrydig ac yn barod i ddysgu [...] Mae'n dysgu pethau'n gyflym iawn ac yn fy marn i, mae wedi helpu gyda'r pwysau ar ddiwedd y mis pan fo terfynau amser yn dynn [...] Mae hyn yn gwneud y gwaith yn llawer haws i'w reoli.

**Leanne Hockey**
**Rheolwr llinell aelod o staff a drosglwyddodd o'r tîm Diogelwch i'r tîm Gwasanaethau Ariannol**

"Mae'r gronfa benthyg staff wedi bod yn amhrisiadwy ac yn brofiad arbennig o werthfawr, gan roi'r cyfle imi ddefnyddio fy sgiliau ymchwil mewn amgylchedd gwahanol, tra'n cael cipolwg gwell ar waith Comisiwn y Senedd.

**Megan Jones**
**Trosglwyddodd o'r Gwasanaethau Ymgysylltu i'r Gwasanaeth Ymchwil**

"Ym mis Rhagfyr 2020 cefais y cynnig i symud i'r tîm Adnoddau Dynol i weithio gyda'r tîm Iechyd a Diogelwch ar secondiad byr. Roedd hyn er mwyn helpu gyda'r baich gwaith cynyddol yn sgil Covid.

[...] Ar ôl pum mis yn y rôl, rwy'n teimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau ac yn gallu gorffen darnau o waith mwy gyda llai o oruchwyliaeth. Bydd y sgiliau rydw i wedi'u hennill yn yr amser byr gyda'r tîm Iechyd a Diogelwch o fudd mawr yn fy rôl ac yn chwarae rhan bwysig yn llunio fy ngyrfa yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Thomas Donne**
**Trosglwyddodd o'r tîm Diogelwch i'r tîm Adnoddau Dynol**

# Dysgu o'n hymateb i Covid-19 ac edrych i'r dyfodol

Mae'r pandemig wedi rhoi dros flwyddyn o brofiad anuniongyrchol i ni o ffyrdd newydd o weithio i Aelodau, y cyhoedd, a staff, ac mae hynny wedi gofyn am newid cyflym a sylweddol a dysgu'n barhaus.

Sefydlodd y Bwrdd Gweithredol uwch grŵp llywio yn gynnar yn y pandemig i gydgysylltu ymateb y Comisiwn.  Fel rhan o hyn, dechreuwyd ar lif gwaith y 'Dyfodol' i gasglu gwersi a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol fel y gellid ystyried y gwerth strategol hirdymor o gael y Senedd a'r Comisiwn yn sefydliad mwy hyblyg, ymatebol a chynaliadwy.

Mae cyrhaeddiad ac effaith y gwaith hwn yn eang, ac mae'n cynnwys dysgu o sut mae Aelodau wedi gweithio yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, i lywio cyfleoedd i'r Senedd weithio'n wahanol yn y dyfodol.  Mae'r profiad wedi dangos bod cymaint o'r hyn y mae'r Senedd a'r Comisiwn yn ei wneud yn gallu cael ei wneud mewn amgylchedd mwy hyblyg, drwy weithio o bell ac yn hybrid.

Mae llif gwaith y Dyfodol wedi cael budd o ymgysylltiad sylweddol gan staff yn ystod y cyfnod hwn.  Mae hyn wedi cynnwys casglu data drwy arolygon staff a dod â chynrychiolwyr o bob Maes Gwasanaeth ynghyd ar draws y Comisiwn, y rhwydweithiau cydraddoldeb ac ymgysylltu â staff, ac Ochr yr Undebau Llafur, i drafod eu profiad.  Gwnaeth y tîm traws-sefydliad argymhellion ar egwyddorion arweiniol ar gyfer gweithio'n hyblyg a defnydd o'r ystâd yn y dyfodol i'n galluogi i ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf mewn byd sydd wedi newid.

Paratowyd adroddiad ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, a oedd yn nodi'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig ac allbynnau o'r gwaith ymgysylltu helaeth gan staff.  Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu yn y Chweched Senedd, gan sicrhau bod y Comisiwn yn dechrau tymor newydd mewn sefyllfa gref i addasu'n gyflym i'r 'normal newydd'.

# Buddsoddwyr mewn Pobl

Ym mis Mai 2020, roedd y Comisiwn yn falch iawn o ennill achrediad safon Platinwm o dan y Fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl newydd. Gyda dim ond 2 y cant o sefydliadau yn sicrhau'r platinwm, mae'r wobr wir yn adlewyrchu ethos Un Tîm gwych yr holl sefydliad a'r balchder a'r angerdd sydd gan gyflogeion y Comisiwn. Mae hefyd yn rhoi darlun cliriach i'r sefydliad o'r hyn y mae cyflogeion yn ei feddwl ac yn teimlo ynghylch gweithio yn y Comisiwn, yn enwedig gan ein bod i gyd yn wynebu cyfres newydd ac ansicr o amgylchiadau.


Graddiwyd y Comisiwn gan aseswyr Buddsoddwyr mewn Pobl yn seiliedig ar arolwg staff a phortffolio o dystiolaeth, gan gynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad yn cymryd rhan mewn gweithdai a chyfweliadau.

Mae buddsoddi yn ein pobl wedi sicrhau canlyniadau ac wedi cefnogi ein hymateb i'r pandemig. Drwy ein diwylliant Un Tîm, mae'r Comisiwn wedi grymuso ein pobl i ddod yn arweinwyr gwell, sydd i'w weld yn barhaus yn ein harolygon Pwls Llesiant a Pharhad Busnes drwy gydol y pandemig. Mae'r Comisiwn wedi cefnogi, datblygu a darparu'r offer angenrheidiol i barhau i weithio drwy'r sefyllfa ddigynsail bresennol yn effeithiol iawn, gyda 95 y cant o'n staff yn nodi eu bod yn teimlo'n wybodus, mewn cysylltiad da, ac yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Drwy gyd-ddylunio ein gwerthoedd gyda'n cyflogeion, mae'r Comisiwn wedi gwneud yr ymdrech ymwybodol i sicrhau bod ein gwerthoedd wrth wraidd ein gweithredoedd bob dydd drwy:

- greu ymgyrchoedd mewnol sy'n ategu ein hymrwymiad i'n gwerthoedd;
- galluogi pobl i adrodd am unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i'n polisi Urddas a Pharch;
- mynd ati i annog staff i fod yn ffrindiau beirniadol i'r Senedd (boed hynny drwy arolygon dienw, yn unigol, neu mewn ymgynghoriadau grŵp);
- helpu i ailsefydlu ein rhwydwaith llais staff; ac
- ymgysylltu â'r holl rwydweithiau staff ar y gwaith o ddylunio polisi ac ymatebion.

Mae ennill gwobr Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl, ochr yn ochr ag anrhydeddau eraill, gan gynnwys 50 Cyflogwr Gorau i Fenywod The Times, gwobrau TIDE ac eraill eleni, yn llwyddiant gwirioneddol sy'n helpu i ddathlu ein hymrwymiad i welliant parhaus.



# Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2021 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn, ynghyd â data gweithlu a recriwtio cysylltiedig, a'n data cyflog cyfartal, bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bwlch cyflog ethnigrwydd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael drwy ein gwefan.

Mae cysyniadau amrywiaeth, cynhwysiant, lles a diogelwch wedi bod yn ystyriaethau canolog wrth wneud penderfyniadau yn ein hymateb i bandemig Covid-19, gan sicrhau ein bod yn cadw pobl ar ein hystâd a'r rhai sy'n gweithio o bell yn ddiogel tra bod busnes o ddydd i ddydd yn parhau.

Mae rhai o uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

**Rhaglen recriwtio a thrawsnewid rithwir**

- Gwnaethom newid o weithgareddau recriwtio wyneb yn wyneb i rai rhithwir dros nos.  Gwnaethom asesu'r effeithiau posibl y gallai'r newidiadau hynny eu cael drwy gynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a sicrhau bod ein proses rheoli ymgeiswyr yn briodol ar gyfer y trefniadau newydd o ran cyfweld o bell.

- Ym mis Tachwedd, lansiwyd System Olrhain Ymgeiswyr sy'n sicrhau na ellir adnabod pobl drwy eu ceisiadau a gwella ein gallu dadansoddeg data.

- Er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn ein gweithlu, rydym wedi datblygu strategaethau hysbysebu unigol ac wedi treialu gwahanol lwyfannau ar gyfer hysbysebu ein swyddi.

- Rydym wedi adolygu ein proses gynefino rithwir er mwyn sicrhau ei bod yn groesawgar ac yn gynhwysol; rydym wedi sicrhau bod gennym amrywiaeth yn ein paneli recriwtio a bod pecynnau swyddi i ymgeiswyr yn cynnwys delweddau ac iaith gynhwysol.

### Effaith gadarnhaol ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle a'n Huwch-hyrwyddwyr

Mae gwelededd ein rhwydweithiau ansawdd gweithle wedi cynyddu, yn enwedig o ystyried ein bod wedi bod yn gweithredu yng nghyd-destun amgylchedd gweithio o bell. Maent wedi darparu cymorth hanfodol gan gymheiriaid a mewnwelediad i'r sefydliad gan edrych ar sut mae nodweddion gwarchodedig yn croestorri a beth allai hyn ei olygu i gyflogeion.

Ymhlith y gweithgareddau nodedig mae:

- Panel cyfarfod holl staff, gan gynnwys cadeiryddion rhwydwaith, i rannu profiadau o weithio yng nghyd-destun y cyfnod clo a'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil hynny.
- Gwnaeth ein Huwch-hyrwyddwr BAME gymryd rhan mewn gweminar ar y cyd rhwng Gweithwyr Proffesiynol Ifanc Du a Chomisiwn y Senedd.
- Mae aelodau'r rhwydwaith, cadeiryddion ac uwch-hyrwyddwyr wedi cynllunio a chymryd rhan mewn podlediadau amserol a blogiau i'w dosbarthu'n fewnol.
- Mae gan ein rhwydwaith REACH bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Arwain i ddarparu mewnwelediad a allai lywio'r broses o wneud penderfyniadau cynhwysol.
- Mae ein holl rwydweithiau wedi dathlu dyddiadau allweddol gan gynnwys Mis Hanes LHDT, Mis Hanes Pobl Dduon a Diwrnod Amser Siarad gyda deunyddiau ac offer wedi'u cynllunio a'u cyflwyno gan aelodau'r rhwydwaith a'u huwch-hyrwyddwyr i godi ymwybyddiaeth, cynnig cipolwg i faterion a allai effeithio ar ein cydweithwyr a chynnig dull sy'n seiliedig ar atebion. Mae gan rwydweithiau sianeli Teams pwrpasol i roi cefnogaeth 'galw heibio' anffurfiol i gydweithwyr.
- Mae cadeiryddion ac aelodau ein rhwydwaith wedi cael cymorth penodol ar gyfer datblygu rôl cadeiryddion rhwydwaith i: hwyluso mwy o gydweithredu a meithrin dull croestoriadol o ran amrywiaeth a chynhwysiant; galluogi cadeiryddion ac aelodau o'r rhwydwaith i rymuso eraill; cynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant; cefnogi llesiant aelodau; eu cynorthwyo i ddarparu cefnogaeth cymheiriaid ar faterion sensitif a datblygu technegau hyfforddi.

- Cymerodd ein Grŵp Arwain ran mewn gweithdy 'Dewch i Siarad Am Hil' gan Busnes yn y Gymuned (BITC) i ddeall ymhellach y materion sy'n ymwneud ag ansawdd hil, terminoleg a braint.


**Uchafbwyntiau eraill**

- Cynnwys gwybodaeth monitro amrywiaeth yn yr Arolwg Staff ac Arolygon Pwls Llesiant sy'n ein galluogi i gael gwell cipolwg o brofiadau gweithwyr â nodweddion gwahanol.

- Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant rithwir lwyddiannus lle gallai staff gael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae Comisiwn y Senedd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid strategol, gan gynnwys BITC Cymru ar hil a llesiant; Stonewall, Buddsoddwyr mewn Pobl a Working Families.  Rydym hefyd yn parhau i fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Pobl Anabl, yn Senedd sy'n Gyfeillgar i Awtistiaeth ac yn Llofnodwr Siarter Hil yn y Gwaith.

Wrth symud ymlaen byddwn yn dechrau'r broses o adnewyddu ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd.





# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Yn ystod 2020-21, ymgynghorodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a chymryd tystiolaeth ar God Ymddygiad newydd (y Cod) ar gyfer y Senedd. Edrychodd yr adolygiad ar gymaryddion rhyngwladol ac enghreifftiau o arfer gorau o bob rhan o sefydliadau cyhoeddus.

Mae gan y Cod, a luniwyd gan y Pwyllgor ac a gymeradwywyd gan y Senedd ar 24 Mawrth 2021, gyfres o wyth egwyddor drosfwaol sy'n seiliedig ar saith egwyddor bywyd cyhoeddus (a elwir yn gyffredin yn Egwyddorion Nolan) gydag egwyddor ychwanegol, sef parch. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr egwyddor o barch yn gynhwysiant pwysig o ystyried y gwaith yn ymwneud ag urddas a pharch sydd wedi bod yn amlwg drwy gydol y Bumed Senedd. Mae'r egwyddor hon yn nodi'r angen i drin pawb â pharch fel gofyniad allweddol i Aelodau o'r Senedd, ac y dylent osod esiampl mewn bywyd cyhoeddus. Yn ogystal â'r 8 egwyddor, mae cyfres o 24 rheol sy'n nodi'n glir yr ymddygiad y gellir ei ddisgwyl gan Aelodau. Mae'r cod wedi'i ddiweddaru ar gael ar wefan y Senedd.

Gweithiodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyda Chlerc y Senedd i benodi Comisiynydd Safonau newydd drwy weithdrefn penodi cyhoeddus agored. Cytunodd y Senedd ar benodiad Douglas Bain, y Comisiynydd Safonau Dros Dro cyfredol, ar 17 Mawrth 2021.



# Cynaliadwyedd

Mewn blwyddyn eithriadol, mae'r ffordd y mae ein staff yn gweithio a sut mae ein hadeiladau'n cael eu defnyddio wedi newid yn ddramatig, mewn rhai ffyrdd yn barhaol. Mae'r pandemig wedi golygu bod pobl yn gweithio gartref, ni chynhaliwyd digwyddiadau ar y safle, a chynhaliwyd y rhan fwyaf o fusnes y Senedd yn rhithwir.

Mae hyn wrth gwrs wedi golygu newidiadau sylweddol i'n heffaith amgylcheddol, gyda gostyngiadau amlwg yn y defnydd o gyfleustodau, a gostyngiad enfawr mewn teithio.  Mae ein prif darged o 'allyriadau ynni' wedi gostwng eto eleni.  Roedd ein hallyriadau ynni eisoes wedi haneru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf – sef ein blwyddyn arferol ddiwethaf – yn ystod oes ein Strategaeth Garbon ddiweddaraf.

Rydym wedi parhau i gynnal yr ystâd gan ystyried effeithlonrwydd amgylcheddol, tra'n canolbwyntio ar iechyd ein staff, contractwyr ac ymwelwyr. Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i lunio Strategaeth Carbon Niwtral newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir, a fydd yn paratoi'r ffordd i'n sefydliad fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.  Bydd llawer o'r addasiadau a gynhwysir yn y Strategaeth yn adeiladu ar waith blaenorol i leihau ein hôl traed ynni a theithio, gan gynnwys newidiadau i barhau i wneud gweithio'n hyblyg mor hawdd ac effeithiol â phosibl yn y dyfodol.

Mae ein gwaith amgylcheddol wedi parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n ffurfiol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) yn ôl gofynion ISO14001 (y safon ryngwladol sy'n nodi gofynion ar gyfer system reoli amgylcheddol effeithiol). Mae'r crynodeb a ganlyn yn dangos uchafbwyntiau a data ystadegol, ond cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

### Ynni

Er bod nifer y staff wedi gostwng yn sylweddol ar y cyfan, roedd angen amgylchedd gwaith cyfforddus o hyd ar gyfer y rhai a oedd yn bresennol yn yr adeiladau, felly ni wnaeth y defnydd o nwy ostwng yn fawr o'i gymharu â'r llynedd.  Mae hyblygrwydd ein seilwaith i ymateb i lai o staff yn rhywbeth y

bydd ein Strategaeth Carbon Niwtral arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried ei bod hi'n debygol y bydd newidiadau hirdymor i batrymau gwaith. Byddwn yn edrych ar ddiweddaru ein hardaloedd swyddfa i wneud gwell defnydd o le a lleihau eu defnydd o ynni ar ddiwrnodau pan na fydd llawer o bobl yn yr adeilad.

Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng 25 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod rhai cyfleusterau yn yr adeilad fel mesurau diogelwch, gweinyddwyr data a phympiau gwresogi wedi parhau i fod yn weithredol drwy gydol y cyfnod, mae offer oeri gorfodol wedi'i ddiffodd i leihau risg o heintio ac mae'r galw am oleuadau a phŵer bach wedi gostwng yn sylweddol. Y llynedd nodwyd cynnydd sylweddol mewn costau trydan (prisiau'n codi oddeutu 16 y cant), ond eleni bu cynnydd o 3 y cant mewn cyfraddau fesul uned.

Rydym wedi bachu ar y cyfle yn sgil bod yr ystâd yn dawelach er mwyn datblygu sawl prosiect cyfleusterau a gynlluniwyd, y mae rhai ohonynt yn dangos llai o alw am drydan yn y flwyddyn i ddod, er enghraifft mwy o oleuadau LED a rheolaethau wedi'u diweddaru ar gyfer y pwmp gwres o'r ddaear yn y Senedd. Ein ffocws ar gyfer gwaith prosiect yn y byrdymor fydd ymgorffori effeithlonrwydd – gwneud offer fel y BMS (system rheoli adeiladau) yn fwy effeithiol wrth leihau'r defnydd o ynni yn unol â llai o bobl yn yr adeilad.

### Gwastraff ac adnoddau

Roedd swm y gwastraff a gynhyrchwyd wedi gostwng yn sylweddol eleni; eto o ganlyniad uniongyrchol i'r gostyngiad yn nifer y defnyddwyr yn yr adeilad. Roedd cyfanswm y tunelledd gwastraff bron hanner cyfanswm y llynedd, gyda'r gostyngiad yn nifer y personél ar y safle yn cael ei wrthbwyso i raddau gan gynnydd yn y gwaith prosiect sy'n digwydd ar yr ystâd, yn ogystal â chynhyrchu gwastraff PPE. Mae'r angen i sicrhau bod eitemau fel PPE yn cael eu gwaredu'n briodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu, er nad oes unrhyw wastraff gennym wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi, mae canran uwch o'r gwastraff a gynhyrchwyd wedi'i anfon i gyfleuster adfer ynni.

Mae'r defnydd isel o adeilad y Senedd wedi'i adlewyrchu yn y gostyngiad sylweddol yn y ffigurau dŵr. Roedd maint y dŵr glaw a gynaeafwyd yr ydym wedi'i ddefnyddio yn yr adeilad (a ddefnyddir yn bennaf yn y toiledau) wedi gostwng tua 70 y cant – sef gostyngiad a adlewyrchir yn ein bil dŵr ar gyfer yr ystâd gyfan.

Mae defnydd papur hefyd wedi gostwng yn ddramatig – i lawr dros 70 y cant.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau

drwy fframweithiau Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a gydgysylltir yn ganolog, ac rydym yn nodi bod rhaid cael pren o ffynonellau'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) mewn unrhyw ddodrefn a brynir. Mae ein prif gontractau yn cael eu hasesu am eu cymwysterau cynaliadwyedd, gyda meini prawf cysylltiedig yn aml yn cael eu hychwanegu at fanylebau tendr.

## Teithio

Oherwydd cyfyngiadau Covid, mae hawliadau teithio wedi gostwng tua 90 y cant gydag Aelodau a staff yn defnyddio mwy o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n seiliedig ar dechnoleg.

Dangosodd ein harolwg teithio diweddaraf, a gynhaliwyd ychydig cyn i Covid effeithio ar deithio, fod staff yn defnyddio cerbydau mwy effeithlon nag erioed a bod mwy yn dewis dulliau cynaliadwy o deithio. Er mwyn cefnogi hyn rydym wedi cynyddu cyfleusterau storio ar gyfer beicwyr ac wedi cyflwyno cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr beiciau trydan.

## Effeithiau Eraill

Bydd ein Strategaeth Carbon Niwtral arfaethedig yn cynnwys mesurau sy'n darparu amddiffyniad pellach yn erbyn newid hinsawdd. Bydd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, er enghraifft, yn sicrhau bod o leiaf rhywfaint o'n cyflenwad ynni yn ddiogel ac wedi'i amddiffyn rhag unrhyw gyfnewidioldeb yn y marchnadoedd.

Mae ein hystâd mewn lleoliad trefol, ac nid yw ein gweithgareddau i'w chynnal yn effeithio'n uniongyrchol ar ardaloedd gwledig.

Mae ein cefnogaeth i fioamrywiaeth y safle wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cadw at y gweithrediadau torri lleiaf posibl o'r llain blodau gwyllt, ac wedi cynnal a chadw'r gerddi yn y maes parcio; mae pob un ohonynt yn dangos cynnydd ym mywyd trychfilod. Rydym wedi cyflwyno trydydd cwch gwenyn yn y Pierhead, tra bod y ddau wreiddiol wedi cael blwyddyn gynhyrchiol iawn – gan gynhyrchu dwbl y cnwd mêl a wnaethant yn 2019. Mae ein Strategaeth Garbon hefyd yn hyrwyddo bioamrywiaeth; gan ymrwymo i ddyblu arwynebedd cyffredinol y man gwyrdd ar yr ystâd drwy gydol ei hoes.



| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** [4][5][6] | | **2012-13 (llinell sylfaen)** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[7] | 329 | 297 | 239 | 236 | 234 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[8] | 1,470 | 955 | 732 | 643 | 438 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas[9] | 432 | 390 | 316 | 272 | 93[10] |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 298 | 5.3 | 7.4 | 6.0 | 4.8 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth | 2,588 | 1,659 | 1,304 | 1,156 | 752 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 2,290 | 1,654 | 1,296 | 1,150 | 748 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

[4] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[5] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[6] Nid yw'n cynnwys teithio Aelodau o'r Senedd a'u staff ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[7] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010 tan iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2018.

[8] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[9] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[10] Nid yw'n cynnwys teithio Aelodau o'r Senedd a'u staff ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

| Y Defnydd o Ynni [11] [12] | | 2012-13 (llinell sylfaen) | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 3,194,890 | 2,602,054 | 2,647,115 | 2,596,810 | 1,944,436 |
| | Nwy | 1,741,299 | 1,452,075 | 1,314,772 | 1,289,334 | 1,282,969 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 840,438 | 409,770 | 492,420 | 404,690 | 285,215 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,880 | 1,363 | 1,066 | 962 | 734 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 458,168 | 431,187 | 467,404 | 521,093 | 406,650 |

[11] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010 tan iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2018.

[12] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

| Gwastraff | | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | 140 | 142 | 128 | 103 | 59 |
| | Ailgylchu / Adfer | 136 | 138 | 124 | 104 | 59 |
| | Adfer Ynni | - | 4.04 | 4.07 | 43.0 | 41.0 |
| | Tirlenwi | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 15.9 | 17.0 | 17.0 | 17.5 | 2.4 |
| | Gwastraff peryglus | 0.15 | 0.4 | 0.3 | 0.2 | 0.02 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i A4 miliwn o ddalennau) | 1.99 | 2.92 | 2.73 | 2.33 | 0.86 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar waredu gwastraff | 36,455 | 33,008 | 39,749 | 27,025 | 5,445 |

| Y defnydd o ddŵr | | 2014-15 (llinell sylfaen) | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)** | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 6,117 | 4,158 | 6,064 | 6,281 | 1,642 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 1,554 | 578 | 542 | 515 | 141 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar gyflenwad a charthffosiaeth | 22,245 | 15,424 | 12,189 | 18,065 | 10,499 |

| Teithio Swyddogol [13] [14] | | 2013-14 (llinell sylfaen) | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)** | Teithio ar fusnes | 884,176 | 724,400 | 732,235 | 754,431 | 61,131 [15] |
| | Cerbydau y mae'r Senedd yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 31,949 | 16,512 | 16,705 | 13,003 | 913 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 349,775 | 337,805 | 301,200 | 300,920 | 27,941 [16] |

[13] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[14] Nid yw'n cynnwys teithio Aelodau o'r Senedd a'u staff ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[15] Nid yw'n cynnwys teithio Aelodau o'r Senedd a'u staff ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[16] Nid yw'n cynnwys teithio Aelodau o'r Senedd a'u staff ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2020 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid ($CO_2e$). Mae $CO_2e$ yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol. Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig.

Gellir gweld crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

---

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**

---



# Atebolrwydd



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr i'w chael ar dudalennau 14 - 15.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i'w chael ar dudalennau 16 - 18.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i'w chael ar dudalennau 20 - 21.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn www.senedd.cymru a www.senedd.wales.

### Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Ni chafwyd unrhyw achosion o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Roedd saith achos o dorri rheolau data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli'n fewnol. Roedd y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data yn yr achosion hyn yn isel, felly nid oedd angen cymryd camau pellach.

### Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalen 135 - 150).

### Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w chael ar dudalen 157. Y gost amcan gyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (2019-20, £57,958). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2020-21 (2019-20, dim).

### Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 151 – 169 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc (y Prif Weithredwr), yn ddarostyngedig i rai eithriadau ac amodau. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i alluogi'r Comisiwn i weithredu'n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau strategol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Comisiwn. Mae'n diffinio atebolrwydd, perthnasoedd, a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad a gydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu'r dull o gyflawni'r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae'n cynnwys fframweithiau ar gyfer: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu a chydymffurfio â set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[17] sy'n cyd-fynd â chodau ymarfer Trysorlys EM a'r Cyngor Adrodd Ariannol a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus. Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i'n dulliau gweithredu fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran *Sicrwydd* y datganiad hwn (tudalen 128) yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o'r gydymffurfiaeth hon drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i'r Senedd weithredu'n effeithiol. Mae'n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiynwyr wedi'i chynnwys yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw'r Prif Weithredwr a Chlerc, sy'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a blaenoriaethau, ac mae'n atebol yn bersonol i'r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb unrhyw bwerau gweithredol ac sy'n llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain. [18]

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar adroddiadau archwilio mewnol ac

[17] https://senedd.cymru/media/rrjk0lww/gov-principles-branded-welsh.pdf

[18] Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13291

allanol gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg; prosiectau mawr, a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd[19].

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a swyddi uwch eraill, a materion sy'n gysylltiedig â dull strategol y Comisiwn o ymgysylltu a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus.

### Arall

Y tu allan i fframwaith llywodraethu'r Comisiwn, mae Bwrdd Taliadau annibynnol hefyd sydd â swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd hwn yn llunio ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau ac amcanion strategol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[20] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae hefyd system o awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, megis caffael.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair Cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, ac maent yn atebol i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu yn feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth.

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, yw'r corff penderfynu strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r

---

[19]https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[20]https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/

holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Ar ddechrau'r pandemig, cytunodd y Comisiwn y dylai'r Bwrdd Gweithredol (a ategir gan y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ac uwch swyddogion cymorth y Llywydd) gadw'r cyfrifoldeb gweithredol dros reoli ymateb y Comisiwn i'r pandemig, gan uwchgyfeirio i'r Llywydd ar gyfer penderfyniadau gwleidyddol neu sylweddol, yn enwedig y rhai y mae angen i'r Comisiwn neu'r Pwyllgor Busnes llawn eu gwneud mewn perthynas â busnes y Senedd. Cytunwyd ar egwyddorion arweiniol mewn perthynas â pharhad busnes y Senedd a phresenoldeb ar ystâd y Senedd.

## Trefniadau llywodraethu ychwanegol yn ystod pandemig Covid-19

Mae'r trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig, fel yr amlinellir uchod, wedi helpu i sicrhau penderfyniadau a chyfathrebu effeithiol ac amserol mewn perthynas â phenderfyniadau gyda staff, Aelodau o'r Senedd a'u staff, y cyfryngau, a'r cyhoedd.

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad o’r Adroddiad Blynyddol (o dan nod Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth) yn cynnwys adran "Cynnal busnes yn ystod y pandemig" sy'n amlinellu ein hymateb o ran cynllunio a pharatoi, gwneud penderfyniadau a llywodraethu, cynllunio ar gyfer parhad busnes, rheoli a darparu, lles a chynnal cyfathrebu.

I ategu ein trefniadau llywodraethu, ar ddechrau’r pandemig gwnaethom sefydlu gweithgor i ddechrau'r broses o gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ystâd a hefyd i gydgysylltu canllawiau i Aelodau a staff. Cafodd y grŵp Dychwelyd i’r Ystâd hwn ei ddisodli gan y grŵp Cydnerthedd a Monitro Covid (CRAM), sy'n benodol gyfrifol am fonitro newidiadau i Reoliadau Covid-19 sy'n effeithio ar y Comisiwn a chynghori'r Bwrdd Gweithredol, gan ddatblygu ac adolygu asesiadau risg a monitro data ar effaith y pandemig ar iechyd a lles y gweithlu.

Mae fframwaith llywodraethu cadarn a gwaith cynllunio diwygiedig ar gyfer parhad busnes wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda, gan ein galluogi i ymateb i'r heriau sy’n gysylltiedig â’r pandemig. Rydym wedi cynnal safonau llywodraethu uchel drwy gydol y flwyddyn, ac mae gwaith i gydgysylltu gweithgarwch llywodraethu wedi parhau heb darfu. Mae hyn wedi cynnwys adolygu, monitro a rheoli risg yn barhaus ar lefelau corfforaethol, gweithredol ac ar lefel prosiectau; blaenoriaethu cymorth i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â rheolau llywodraethu gwybodaeth a chaffael; ac archwilio mewnol ac allanol.

Roedd angen rhai newidiadau i'r cynllun archwilio mewnol gwreiddiol er mwyn gallu canolbwyntio ar sicrwydd amser real ynghylch newidiadau i weithdrefnau (ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran *Sicrwydd* y datganiad hwn). Cynhaliwyd yr archwiliad o'r cyfrifon fel y cynlluniwyd.

Mae'r holl benderfyniadau a wnaed i fynd i'r afael â risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'n hymateb i Covid-19 wedi'u cofnodi. Mae'r log penderfyniadau hwn wedi profi ei werth fel cofnod ac mae'n cael ei ddefnyddio i nodi gwersi a dod o hyd i gasgliadau, ac i lywio ein trefniadau parhad busnes yn y dyfodol.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad, 2016-21[21], y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2016, wedi rhoi cyfeiriad ac wedi galluogi cynllunio gwybodus ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau. Amlinellir ein nodau a'n blaenoriaethau, ynghyd â gwerthoedd y Comisiwn, yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Gweithredol wedi rhoi arweiniad o ran nodi sut y caiff y nodau a'r blaenoriaethau eu cyflawni drwy gynllunio gwasanaethau'n effeithiol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnal adolygiadau blynyddol a gwaith craffu ar gynlluniau'r cyfarwyddiaethau a gwasanaethau sy'n helpu i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws y Comisiwn. Caiff adnoddau eu trefnu o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth yn barhaus sy'n golygu y gellir symud staff yn gyflym mewn ymateb i flaenoriaethau a phwysau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys mesurau sy'n dangos perfformiad y Comisiwn ar draws gwasanaethau. Mae adolygiad o fesurau perfformiad mewn ymateb i argymhellion Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus y Senedd wedi arwain at gyflwyno mesurau mwy perthnasol a heriol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd nodau a blaenoriaethau strategol y Chweched Senedd yn cael eu pennu gan y Comisiwn newydd unwaith y byddant wedi'u penodi yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Caiff hyn ei lywio gan adroddiadau gwaddol o adolygiad presennol y Comisiwn a'r Bwrdd Gweithredol o flaenoriaethau sefydliadol yng

[21]https://senedd.cymru/comisiwn/polisi-comisiwn-y-senedd/strategaeth-comisiwn-y-senedd-2016-2021/

ngoleuni'r anghenion newidiol. Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn mynd i'r afael â chynllunio ar gyfer y Chweched Senedd yn adran *Cynnydd a pherfformiad* isod.

## Cynnydd a pherfformiad

Yn y Datganiad Llywodraethu y llynedd, nodwyd nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ac amlinellir cynnydd ar y rhain isod. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys manylion effaith o ganlyniad i bandemig Covid-19.

### Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor pandemig Covid-19

Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno llawer o newidiadau arloesol er mwyn cefnogi'r Senedd, gan gynnwys gweithio o bell, Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor rhithwir a hybrid, a phleidleisio electronig. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd ac wedi gweithio'n llwyddiannus i'r graddau ein bod o'r farn y bydd rhai yn dod yn nodweddion parhaol o'r drefn cynnal busnes yn y dyfodol.

Mae sylwadau a gwersi a ddysgwyd wedi'u cyflwyno'n rheolaidd i'r Comisiwn, a chyflwynwyd diweddariadau ym mhob un o gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Mae sylwadau manwl bellach wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn hefyd i lywio trafodaethau am y strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, gan gynnwys cyfleoedd i weithio'n wahanol.

O ran gwaith ymgysylltu, caiff y newyddbethau mwyaf llwyddiannus eu cadw er mwyn ein helpu, ar ôl y pandemig, i gyrraedd y cynulleidfaoedd sydd ar y cyrion ac sydd â llai o ddiddordeb yn ein sefydliad. Fel rhan o hyn byddwn yn parhau i fonitro amrywiaeth y rhai sy'n ymgysylltu â ni drwy wahanol ddulliau ac yn asesu'r awydd am ddigwyddiadau ac ymgysylltu ar-lein yn y cyfnod ar ôl Covid-19.

Yn gynnar yn y pandemig, sefydlwyd uwch-grŵp llywio i gydgysylltu ymateb y Comisiwn. Fel rhan o hyn, sefydlwyd ffrwd waith 'y Dyfodol' i nodi'r dysgu a'r cyfleoedd o'n profiadau o weithio o bell. Yn sgil hyn byddwn yn dwyn ynghyd opsiynau i'w hystyried ymhellach wrth benderfynu sut y byddwn yn gweithio, ble y byddwn yn gweithio, a sut y byddwn yn defnyddio'r ystâd, yn y dyfodol, ynghyd â sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer parhad busnes. Dan arweiniad y Comisiwn a Phwyllgor Busnes newydd a chadeiryddion newydd y Pwyllgorau, byddwn yn manteisio ar y profiadau a'r hyn a ddysgwyd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n cynyddu cyn belled ag y bo modd y cyfleoedd i weithio'n hyblyg, yn effeithlon, ac yn gynaliadwy.

## Cynllunio'n effeithiol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd

Bu'r strwythurau llywodraethu a sefydlwyd i gydgysylltu gwaith cynllunio ar gyfer pontio i'r Bumed Senedd yn effeithiol iawn ac maent wedi'u hadnewyddu a'u cyflwyno ar gyfer y cyfnod pontio nesaf. Mae hyn yn cynnwys gweithgor ar gyfer y Chweched Senedd a Grŵp Senarios, sydd wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Busnes y Senedd ac yn cynnwys uwch swyddogion o bob rhan o'r Comisiwn i drafod materion sy'n amrywio o ddefnydd o adnoddau'r Senedd gan Aelodau yn ystod y diddymiad, i effaith amseriad yr Etholiadau. Ochr yn ochr â hyn, mae bwrdd Cynllunio Etholiadau, ymhlith pethau eraill, wedi monitro'n agos y risgiau sy'n gysylltiedig â symud yr Etholiadau.

Cyflwynwyd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 fel Bil Brys gan Lywodraeth Cymru a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Llywydd newid dyddiad yr Etholiad pe bai'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Ar ddechrau'r Chweched Senedd, bydd uwch swyddogion y Comisiwn yn cynghori'r Llywydd, y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion ar amrywiaeth o faterion busnes y Senedd, gan gynnwys ethol deiliaid swyddi a strwythur Pwyllgorau'r Senedd. Rydym hefyd yn barod i gefnogi'r Senedd, ei phwyllgorau a'i Haelodau i lywio tirwedd gyfansoddiadol y DU ar ôl gadael yr UE, ac i sefydlu'r drefn newydd ar gyfer safonau ymddygiad.

Bydd y strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd a ffyrdd o ymgymryd â busnes y Senedd yn y dyfodol yn cael ei llunio gan benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes newydd a Chadeiryddion newydd y Pwyllgorau. Byddwn yn adolygu ein strwythurau ac yn addasu ein gwasanaethau yn unol â hynny. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'n gallu i wasanaethu'r Senedd, gan gynnwys y gefnogaeth i Bwyllgorau, i sicrhau ei llwyddiant hirdymor.

Mae agweddau eraill ar baratoi ar gyfer y Chweched Senedd y mae swyddogion y Comisiwn wedi'u harwain, eu cefnogi a'u cydgysylltu yn cynnwys: Cod Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau o'r Senedd; a chaffael system Meddalwedd Deddfwriaeth newydd.

Mae swyddogion y Comisiwn, fel sy'n ofynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, hefyd yn cefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae hyn wedi cynnwys adolygu a chyhoeddi'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

O ganlyniad i'r pandemig, addaswyd ein cynlluniau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu o amgylch Etholiad y Senedd yn 2021 a'r bleidlais i bobl 16 oed. Roedd hyn yn golygu symud yn gyflym i gasgliad o adnoddau ar-lein, gan gynnwys adnoddau i athrawon a myfyrwyr a oedd ar gael drwy Hwb, safle adnoddau addysgol i Gymru gyfan.

Bydd cynllunio strategol hefyd yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o'n hymateb i Covid-19 a phenderfyniadau ynghylch ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

### Gwaith parhaus o ran seiberddiogelwch ac adolygu diogelwch corfforol i fod yn ymwybodol o newid

Mae'r pandemig wedi arwain at gynnydd byd-eang yn nifer yr achosion o ymosodiadau seiber ac nid yw'r Senedd yn ddiogel rhag hyn. Rydym wedi parhau i gryfhau ein trefniadau cydnerthedd seiber ac er ei bod yn werth nodi bod ein hamddiffynfeydd yn parhau i fod yn gryf, nid ydym yn hunanfodlon. Felly, byddwn yn parhau i gyflwyno gwelliannau, cynnal profion trwyadl, a mesur ein hunain yn erbyn safonau cydnabyddedig ac arferion gorau'r diwydiant. Mae seiberddiogelwch hefyd yn faes blaenoriaeth parhaus i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac rydym yn adrodd ar y bygythiad seiber a'n hymatebion ym mhob cyfarfod.

Ceir rhagor o fanylion am reoli risgiau seiberddiogelwch a sicrwydd yn eu cylch yn adran *Adnabod a rheoli risgiau* yn y datganiad hwn.

O ran diogelwch corfforol, mae'r Gwasanaeth Diogelwch wedi cynnal presenoldeb ar yr ystâd drwy gydol y pandemig, a chanolbwyntiwyd ar sicrhau bod pob un sy'n defnyddio'r adeilad yn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo, mewn cydweithrediad â meysydd gwasanaeth eraill, i gryfhau cymorth a lliniaru risgiau i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â chasineb ar-lein o ganlyniad i fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

### Gwerthuso ein dull o reoli prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys effeithiolrwydd y Swyddfa Rhaglenni a Newid

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ym mis Ebrill 2020 i werthuso effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau ar ôl i'r Swyddfa Rhaglenni a Newid gael ei chreu yn 2019. Nododd yr adolygiad welliannau o ran cysondeb achosion busnes ac adrodd ar brosiectau, a wnaeth alluogi'r Bwrdd Gweithredol i wneud penderfyniadau mwy gwybodus, yn enwedig o ran blaenoriaethu prosiectau a monitro eu cynnydd. Mae argymhellion o'r archwiliad hwnnw'n cael eu rhoi ar waith i gryfhau llywodraethu ymhellach. Mae'r system o weinyddu

prosiectau, o'r cam dichonoldeb a mandad y prosiect i'r achos busnes, hefyd wedi'i hailwampio a'i gwella.

Mae'r Swyddfa Rhaglenni a Newid yn amlygu cynnydd o ran cyflawni prosiectau drwy gyflwyno dangosfwrdd cynnydd misol, sy'n cynnwys pob prosiect corfforaethol, i'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Swyddfa hefyd wedi cefnogi'r gwaith llywodraethu mewn perthynas â'r rhaglen Dychwelyd i'r Ystâd ac wedi chwarae rhan flaenllaw o ran cefnogi'r gwahanol ffrydiau gwaith sydd â'r dasg o weithredu trefniadau i barhau â busnes a chynllunio ar gyfer trefniadau gweithio yn y dyfodol.

### Cyflymu'r adolygiad o gymorth i Bwyllgorau

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch cwmpas adolygiad o'r cymorth i Bwyllgorau'r Senedd yn ystod y flwyddyn, a gan fod pwyslais gwaith archwilio wedi newid oherwydd y pandemig, cytunwyd i ymgorffori hyn wrth gynllunio ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig a safbwyntiau a phenderfyniadau'r Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes newydd a Chadeiryddion newydd y Pwyllgorau. Bydd adolygiad o strwythurau o fewn y Gyfarwyddiaeth Fusnes yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag adolygiad ehangach o gapasiti.

### Ailfywiogi ein hymdrechion ynghylch cydymffurfio â rheolau Diogelu Data/GDPR

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sefydlu'r Gweithgor Llywodraethu Data gyda chynrychiolwyr TGCh a'r tîm Llywodraethu a Sicrwydd. Mae'r grŵp yn trafod materion diogelu data arwyddocaol ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg. O'r fforwm hwn, caiff cynigion eu huwchgyfeirio a'u cyflwyno i'r Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth i benderfynu arnynt. Rydym hefyd wedi cynyddu'r adnoddau i gefnogi ein gwaith diogelu data drwy benodi Dirprwy Swyddog Diogelu Data parhaol ac mae cynlluniau ar y gweill i ailsefydlu Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth.

Yn ystod y pandemig, mae'r Swyddog Diogelu Data a'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data wedi gweithio gyda meysydd cyfrifoldeb i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yn cael eu cynnal yn briodol, yn enwedig lle bu newid yn y dull o ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu. Bydd hyn yn parhau wrth i ni ehangu ein defnydd o ymgysylltu rhithwir a digidol.

Mae manylion llawn y gwaith yn y maes hwn wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Adnewyddu ymwybyddiaeth llywodraethu ar draws y sefydliad

Mae cyfarfodydd Materion Llywodraethu gyda phob Pennaeth Gwasanaeth, ynghyd â chyfarfodydd o'r gwahanol fforymau llywodraethu wedi parhau drwy gydol y pandemig. At hynny, atgyfnerthwyd pwysigrwydd llywodraethu yn ystod y cyfnod digynsail hwn gyda phenderfyniadau clir a llwybrau archwilio o'r pwysigrwydd mwyaf. Mae'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd wedi mynd i gyfarfodydd mwy rheolaidd y Bwrdd Gweithredol yn ystod y cyfnod ac wedi arwain ar Ffrwd Gwaith Sicrwydd fel rhan o raglen ehangach ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd. Ar lefel fwy 'lleol' cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gyda thimau unigol i drafod materion fel diogelu data a chaffael ac mae trafodaethau'n parhau gydag eraill ynghylch eu hanghenion ehangach o ran ymwybyddiaeth o lywodraethu.

### Ailffocysu gwasanaethau o amgylch ymgysylltu â'r cyhoedd gyda chanlyniadau clir

Ym mis Ionawr 2020, cytunodd y Comisiwn ar strategaeth newydd i wella sut mae'r Senedd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru, gyda mwy o bwyslais ar gyfryngau cymdeithasol a digidol. Lluniwyd y strategaeth hon yn bennaf o argymhellion mewn adroddiad o adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan y Tasglu Digidol a Gwybodaeth. Mae’r pandemig wedi newid y ffordd y cafodd y strategaeth ei rhoi ar waith, ond nid ei hegwyddorion sylfaenol. Mae ffocws ar gynnwys digidol, y cyfryngau cymdeithasol, ac ymgysylltu wedi ein galluogi i wasanaethu'r awydd mwy am wybodaeth ynghylch datganoli sydd wedi codi yn ystod y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn, ac ar ôl ymgynghoriad dros gyfnod o ddau fis gyda staff, bu ailstrwythuro o fewn y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, mae'r Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Ymgysylltu newydd bellach yn eu swyddi.

Mae gennym hefyd wefan newydd sy'n canolbwyntio ar daith y defnyddiwr, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol yn ei chylch o ran strwythur, dewislenni, a chyfleusterau chwilio. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd gwefan newydd ar gyfer deisebau, sy’n ei gwneud yn haws creu a llofnodi deisebau. Mae hyn wedi arwain at gynnydd enfawr yn nifer y deisebau a gyflwynwyd a chynnydd o 45 y cant yn nifer y llofnodion fesul deiseb.

Ceir rhagor o fanylion am ystod o waith allgymorth ac ymgysylltu, gan gynnwys Gŵyl Gwlad, newidiadau o ran dull gweithredu oherwydd y pandemig, a'r wefan newydd, drwy gydol adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Mae ein hanes o reolaeth a pherfformiad ariannol cryf wedi parhau yn ystod y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd nifer o fentrau. Cynhaliwyd ymarfer cyllidebu ar sail sero cyn y Chweched Senedd; mae hyn yn rhoi mwy o dystiolaeth ategol i ddeiliaid cyllidebau a'r Bwrdd Gweithredol o'r anghenion cyllidebol gwirioneddol.

Bob blwyddyn, cynhelir cyfres o ymarferion i flaenoriaethu cynigion buddsoddi. Mae'r rhain yn rhoi eglurder i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y flaenraglen waith a'r galw am y gronfa prosiectau. Bob chwarter, caiff cyllidebau gwasanaethau a phrosiectau eu profi er mwyn sicrhau bod unrhyw newid yn lefel yr arian sydd ei angen yn cael ei nodi'n brydlon a, lle y bo'n briodol, y caiff arian ei ail-flaenoriaethu.

Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar y broses hon ym mis Mawrth 2021, pan holodd y Comisiwn am ei waith cynllunio hirdymor ac yn benodol ei gynlluniau ar gyfer y Chweched Senedd mewn perthynas â phrosiectau mawr fel y ffenestri yn Nhŷ Hywel a chynlluniau cynaliadwyedd y Comisiwn ar gyfer y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn canolbwyntiwyd yn benodol ar oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â Covid-19, gwariant ychwanegol a hefyd arbedion. Mae gweithgareddau Covid-19 wedi cael eu monitro a'u cofnodi drwy log penderfyniadau, ac mae'r effaith ariannol wedi'i chofnodi'n benodol. Rhoddwyd diweddariadau i'r Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus ddwywaith yn ystod 2020-21, gyda diweddariad terfynol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r tîm Cyllid wedi darparu deunydd hyfforddi i feysydd cyfrifoldeb er mwyn gwella dealltwriaeth, ymwybyddiaeth, cydweithredu a chydymffurfiaeth yng ngoleuni'r cynnydd yn nhwyll ariannol yn ystod y pandemig.

Cawsom ein hadroddiad archwilio glanaf hyd yma, heb unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac ni chodwyd unrhyw argymhellion.

Mae dyfyniad o adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2019-20 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2020 yn nodi:

> *Casgliad 2. Rydym yn llongyfarch Comisiwn y Senedd am archwiliad llwyddiannus heb addasiadau nac argymhellion. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac yn cefnogi adroddiadau data cynnar, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19.*

Rydym wedi parhau i gael ein herio gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel adnoddau'r Comisiwn a defnydd ohonynt.

Mae'r tîm Cyllid wedi bod yn allweddol o ran datblygu opsiynau ar gyfer strategaeth cyllideb a'i chyflwyno yn y dyfodol, ac o ganlyniad cafodd y broses hon ei chroesawu gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid am ei thryloywder.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2020 yn nodi:

> *Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr wrth weithio gyda'r Pwyllgor i greu gwybodaeth ariannol dryloyw. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y berthynas waith effeithiol hon yn parhau rhwng Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd.*

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau i gyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn, ynghyd â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.

Mae risgiau mwyaf sylweddol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn berchen ar y cyd ar y risgiau corfforaethol hyn, ac maent yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwr perthnasol a'i Benaethiaid Gwasanaeth.

Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych i'r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu

risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau ac i benderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw risg i lefel gorfforaethol. Mae hyn yn rhoi'r sail ar gyfer yr adolygiad risg chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol. Adroddir ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu'r asesu parhaus ac amlygrwydd risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl.

Un maes y mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol ar gyfer y gwaith a wnawn, y buddsoddiadau a wnawn, a'r wybodaeth a ddatblygwn i ddiogelu'r Senedd rhag seiberymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod a chynnal adolygiadau manwl rheolaidd, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch. At hynny, mae uwch swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach ac ymateb i waith craffu.

Y gwaith diweddaraf sy'n rhoi sicrwydd yw'r archwiliad mewnol o drefniadau'r Comisiwn ar gyfer cadw copi wrth gefn a gwydnwch seiberddiogelwch a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021.

Mae manylion proffil risg y Comisiwn a sut mae hyn wedi newid dros y flwyddyn i'w gweld o dan Reoli Risg yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Sicrwydd

### Fframwaith sicrwydd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn wedi parhau i gynnig dull effeithiol o gasglu tystiolaeth ar lefelau sicrwydd. Yn seiliedig ar y model tair llinell amddiffyn, mae'r fframwaith yn cynnig dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i asesu cryfder ein rheolaethau mewnol, gyda phob maes gwasanaeth yn mapio eu lefelau sicrwydd. Defnyddir y mapiau hyn i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaethau, sy'n cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr. Mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn cynhyrchu datganiad sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu lywio'r Datganiad Llywodraethu hwn. Mae gwaith craffu a herio mewn perthynas

â’r broses ar gyfer casglu tystiolaeth o sicrwydd a datganiadau sicrwydd gan y Cadeirydd ac aelod(au) annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn ychwanegu haen arall o sicrwydd.

Mae hyn yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda a'u cymhwyso ar draws y Comisiwn a bod unrhyw feysydd o wendid cymharol yn cael sylw.

Ceir rhagor o fanylion am y lefelau sicrwydd yn adran *Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol* y datganiad hwn.

### Archwilio mewnol

Yn ei rôl fel Pennaeth Archwilio Mewnol, mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn rhoi sicrwydd ar draws ystod o wasanaethau ac yn mynd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi addasu'r cynllun archwilio yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r cyfnod heriol y mae'r Comisiwn wedi'i wynebu mewn perthynas â'r pandemig ac mae wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y newidiadau hynny. Mae gwaith sicrwydd penodol wedi’i wneud i fyfyrio ar ymateb y Comisiwn i Covid-19 ar ôl y chwe mis cyntaf, a chynhaliwyd archwiliad o waith y Comisiwn i reoli risgiau a phroblemau yn ystod y cyfnod. At hynny, cwblhawyd adroddiadau archwilio mewnol ar seiberddiogelwch, rheoli asedau TGCh, a threuliau Aelodau. Mae ffocws ar wneud gwaith dilynol ar argymhellion o flynyddoedd blaenorol hefyd wedi parhau yn ystod y flwyddyn.

Ar wahân i adroddiadau mewnol traddodiadol, mae archwilio mewnol wedi chwarae rôl o ran sicrhau bod fframwaith addas yn cael ei roi ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod cyfnod Covid-19, creu log penderfyniadau i gofnodi pob penderfyniad, ac arwain ar Ffrwd Waith Sicrwydd Rhaglen Dychwelyd i'r Ystâd y Comisiwn. Mae'r cyfraniad yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio'n fawr ar sicrwydd 'amser real' yn hytrach na sicrwydd ôl-weithredol, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa newidiol y mae'r sefydliad wedi'i hwynebu drwy gydol y flwyddyn.

Mae nifer o archwiliadau a drefnwyd wedi'u gohirio oherwydd y newid yn ffocws y gwaith. Mae disgwyl i'r rhain gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ond bydd y cynllun archwilio ar gyfer 2021-22 yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau i’r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle mae’r

Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Fodd bynnag, lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

Mae Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Mae Archwilio Cymru wedi ystyried y gwaith archwilio mewnol ar dreuliau Aelodau wrth archwilio'r cyfrifon.

Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020-21 yn dod i'r casgliad y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol[22] bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'i gynllunio a'i gyflawni'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

## Meysydd llywodraethu eraill

Lluniodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a chyflwynodd hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol a'i Farn ar gyfer 2020-21. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2020-21.

Dywedodd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth nad oedd unrhyw achosion o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu a sicrwydd ynghylch seiberddiogelwch. Mae'r rhain yn ein helpu i barhau i ddatblygu a chryfhau ein rheolaethau seiberddiogelwch a sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth a data yn cael eu trin yn briodol.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol yn ystyried trefniadau'r Comisiwn ar gyfer cadw copi wrth gefn a gwydnwch seiberddiogelwch ar ddechrau mis Mawrth 2021, ac mae hyn yn cynnig sicrwydd pellach ynghylch yr amgylchedd rheoli.

Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith parhaus ynghylch seiberddiogelwch a diogelwch corfforol yn adran *Cynnydd a pherfformiad* y datganiad hwn.

[22] Sicrwydd cymedrol - mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Mae'r Comisiwn yn monitro cydymffurfiaeth ffurfiol yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol, a chyhoeddir adroddiadau arnynt ar wefan y Comisiwn. Enghreifftiau o hyn yw'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, yr Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng y Tîm Llywodraethu a Sicrwydd a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'r ymarfer datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd lle mae angen ffocws neu hyfforddiant pellach. Rhoddir sylw i hyn wedyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach wedi'u targedu, a ddarperir gan y Tîm Llywodraethu a Sicrwydd.

### Sicrwydd annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol anweithredol y Comisiwn yn rhoi cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Ar wahân i'w rolau pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu maent wedi helpu yn y gwobrau cydnabod staff, wedi herio uwch reolwyr fel rhan o broses y Datganiad Sicrwydd, ac wedi parhau i gynnig cymorth yn ystod cyfnod anodd Covid-19.

Fel rhan o'i rôl yn adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor, lle gellir cynnal trafodaethau pellach am y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn flynyddol ar wersi a ddysgwyd a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Mae canlyniadau'r gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac maent yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddo. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (o dan Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth).

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Ni wnaeth y pandemig effeithio ar y broses ar gyfer casglu ac adolygu sicrwydd ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu. Fodd bynnag, gwnaethom addasu'r templedi a'r canllawiau fel y gellid cyfeirio at effaith y pandemig ar bob maes a adolygwyd.

Yn ganolog i’r adolygiad hwn oedd proses hunan-adolygu a herio a gynhaliwyd o fewn ac ar draws Cyfarwyddiaethau. Dilynwyd hyn gan gyfarfod a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, a'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Chwefror 2021 i adolygu'r datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a gynhyrchwyd drwy ystyried mapiau sicrwydd manwl a datganiadau gan bob Pennaeth Gwasanaeth. Daeth y Cadeirydd ac un aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r cyfarfod i ddarparu her a chraffu annibynnol.

Roedd yr adolygiad yn ymdrin â sicrwydd ynghylch:

- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid rhoi lefel uchel o sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a bod y Comisiwn wedi cynnal trefniadau llywodraethu cyson a chryf drwy gydol y flwyddyn.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2021-22

Mae graddfa'r newid sy'n wynebu'r sefydliad yn y dyfodol yn parhau i fod yn sylweddol. Yn dilyn yr etholiad, bydd ffocws ar gefnogi Aelodau newydd o'r Senedd a phenodi Comisiynwyr a deiliaid swyddi newydd ar ôl hynny. Bydd sesiynau cynefino’r Aelodau a’u staff yn canolbwyntio i ddechrau ar gydymffurfio â deddfwriaeth, gan gynnwys ar gyfer cyflogi staff a diogelu data.

Bydd y meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- gwerthuso’r gwersi a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19;

- sicrhau llywodraethu effeithiol ynghylch newidiadau i ffyrdd o weithio;
- gwerthuso’r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, gan gynnwys effeithiolrwydd cynefino a hyfforddi, cyngor a chanllawiau’r Aelodau;
- cwblhau'r adolygiad o gapasiti a dechrau gweithredu'r argymhellion yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol posibl/cyllideb dynnach ar gyfer 2022-23; a
- gwaith parhaus yn ymwneud â seiber-wytnwch.

## Datganiad i gloi

Ar ddiwedd blwyddyn eithriadol o heriol, rwy'n hyderus bod y sefydliad wedi cynnal safonau llywodraethu uchel iawn a bod y systemau a'r prosesau o fewn ein fframwaith llywodraethu wedi eu gweithredu'n effeithiol. Fel rhan o'n hymateb i bandemig Covid-19 - a lle bo angen - rydym wedi ychwanegu rheolaethau llywodraethu newydd i roi mwy o sicrwydd ynghylch penderfyniadau a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu maent yn y broses o gael sylw. Rwy’n fodlon hefyd bod y systemau a’r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu wedi eu gweithredu a’u datblygu’n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**



# Staff a Thaliadau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, sy'n gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010 ac fe'i cadeiriwyd gan y Fonesig Dawn Primarolo o fis Medi 2015 tan fis Medi 2020. Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd o fis Medi 2020.

Mae'r Cadeirydd yn cael cyfradd fesul diwrnod a oedd yn £333 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 19 Medi a chynyddodd i £400 o 20 Medi 2020. Caiff pedwar aelod arall y Bwrdd (Ronnie Alexander, y Fonesig Jane Roberts, Michael Redhouse a Hugh Widdis) hefyd gyfradd fesul diwrnod. Roedd hyn yn £267 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 19 Medi 2020 a chynyddodd i £310 o 20 Medi 2020. Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

Roedd y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, yn pennu cyflog sylfaenol Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o £67,649 (2019-20, £67,649). Roedd y Penderfyniad yn datgan y byddai addasiad o +4.4 y cant yn cael ei wneud ym mis Hydref 2020, ac eto wedyn ym mis Ebrill bob blwyddyn, yn ôl y newid yn yr ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), Enillion Canolrif blynyddol gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ar 24 Medi 2020, mewn ymateb i'r amgylchiadau a achoswyd gan bandemig Covid-19, cyhoeddodd y Bwrdd benderfyniad pellach a oedd yn dileu'r addasiad hwnnw ac felly arhosodd cyflog sylfaenol a lwfansau'r Aelodau ar yr un lefel drwy gydol y flwyddyn ariannol 2020-21.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2020 | O 1 Ebrill 2019 |
|---|---:|---:|
| Y Llywydd | £43,338 | £43,338 |
| Y Dirprwy Lywydd | £22,197 | £22,197 |
| Comisiynwyr y Senedd: | £13,741 | £13,741 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[23] | £13,741 | £13,741 |
| Cadeirydd Pwyllgor (is)[24] | £9,154 | £9,154 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £9,154 | £9,154 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2020, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,741 (2019-20, £13,741) a £1,057 (2019-20, £1,057) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £38,052 (2019-20, £38,052).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd[25]

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

---

[23] Y pwyllgorau oedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Chyfrifon Cyhoeddus; y Pwyllgor Diwygio Etholiadol a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Diddymwyd Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol ar 7 Hydref 2020.

[24] Y pwyllgor oedd y Pwyllgor Deisebau

[25] www.senedd.cymru

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau o'r Senedd a benodir gan y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2020–21 ar dudalennau 14 - 15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd [26]yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn [27][28] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
| Elin Jones AS - Y Llywydd | 110-115 | 110-115 | 30 | 31 | 140-145 | 140-145 |
| Ann Jones AS - Y Dirprwy Lywydd | 85-90 | 85-90 | 32 | 33 | 120-125 | 120-125 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

[26] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-presiding-officer/Pages/abt_us-deputy-presiding-officer.aspx

[27] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1000 agosaf).

[28] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn | Cyfanswm y pensiwn cronedig | CETV ar 31 Mawrth 2021 | CETV ar 31 Mawrth 2020 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elin Jones AS - Y Llywydd | 0-2.5 | 45-50 | 824 | 774 | 17 |
| Ann Jones AS - Y Dirprwy Lywydd | 0-2.5 | 40-45 | 768 | 747 | 29 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau.  Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.  Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2020–21 ar dudalennau 16 - 18.

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.   Mae'r dull hwn yn unol â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fudd-daliadau o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae’r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae’r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| **Enw** | **Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd** |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn naw o naw cyfarfod y Comisiwn, pump o bump cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a phedwar o’r pedwar cyfarfod o’r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu. |
| Siwan Davies | Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Roedd Siwan Davies yn bresennol mewn naw o naw cyfarfod y Comisiwn a phedwar o bump cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| Dave Tosh | Cyfarwyddwr Adnoddau’r Senedd<br>Roedd Dave Tosh yn bresennol mewn naw o naw cyfarfod y Comisiwn, pump o bump cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a thri o’r pedwar cyfarfod o’r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn naw o naw cyfarfod y Comisiwn, pump o bump cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a thri o’r pedwar cyfarfod o’r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol nhw.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Budd-daliadau pensiwn (i'r £1000 agosaf)[29] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 |
| **Manon Antoniazzi** | 145-150 | 135-140 | 57 | 54 | 200-205 | 190-195 |
| **Siwan Davies** | 95-100 | 90-95 | 38 | 35 | 130-135 | 125-130 |
| **Dave Tosh** | 110-115 | 110-115 | 48 | 47 | 160-165 | 155-160 |
| **Arwyn Jones** o 9 Medi 2019 | 85-90 | 45-50 | 35 | 19 | 125-130 | 65-70 |
| **Craig Stephenson** hyd at 13 Medi 2019 | - | 45-50 | - | 22 | - | 65-70 |
| **Elisabeth Jones** hyd at 31 Mai 2019 | - | 10-15 | - | 22 | - | 35-40 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn 2019-20 i Elisabeth Jones oedd £101,346, i Craig Stephenson oedd £101,346 ac i Arwyn Jones oedd £86,228.

Gadawodd Elisabeth Jones Gomisiwn y Senedd ar 31 Mai 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darparwyd ar gyfer y gost o £115-120,000 o fewn cyfrifon 2018-19 ac fe'u talwyd yn 2019-20. Gadawodd Craig Stephenson Gomisiwn y Senedd ar 31 Medi 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darparwyd ar gyfer y gost o £125-

[29] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn.

130,000 o fewn cyfrifon 2018-19 ac fe'u talwyd yn 2019-20. Roedd y taliadau hyn yn rhan o Gynllun Ymadael Gwirfoddol ehangach.

Mae swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a ddaliwyd yn flaenorol gan Elisabeth Jones, wedi aros yn wag ers 31 Mai 2019. Darparwyd cyngor cyfreithiol i'r Comisiwn ers y dyddiad hwnnw gan Huw Williams ar secondiad i ddechrau drwy Geldards LLP ac o 1 Awst 2019 ar sail ymgynghoriaeth. Y gost i'r Comisiwn yn 2020-21 oedd £120,000 (2019-20 - £99,000 am ddeg mis).

## Cyflogau staff y Comisiwn

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band taliad y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a thaliad canolrifol staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn. Cyflogau yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2021. Nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na phensiwn y Cyflogwr. Nid oes unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2020-21 nac yn 2019-20.

| Mesur | 2020–21 Cyflog £ | 2019–20 Cyflog £ |
|---|---:|---:|
| Band y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf | 145,000 - 150,000 | 135,000 - 140,000 |
| Cyfanswm taliad canolrifiol | 38,362 | 37,647 |
| Cymhareb | 3.81 | 3.65 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r cyflog canolrifol wedi cynyddu tua dau y cant yn unol â'r fformiwla dyfarnu cyflogau sy'n gymwys o fis Ebrill 2020. Mae'r gymhareb wedi cynyddu tua phedair y cant, gan fod cyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf wedi symud un pwynt cyflog yn uwch o fewn y band.

Yn 2020-21, ac yn 2019-20, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £18,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £146,000 (£18,000 i £138,000 yn 2019-20).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

## Pensiwn

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – budd-daliadau pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn[30] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[31] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2021[32] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5.0 | 20-25 | 313 | 257 | 35 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Siwan Davies* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 55 | 28 | 19 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd***: *Dave Tosh* | | | | |
| 2.5-5.0 | 45-50 | 765 | 701 | 33 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones - o 9 Medi 2019* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 29 | 10 | 12 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir budd-daliadau pensiwn i staff y Senedd drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alffa, sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfartal ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 mlwydd oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth ag alffa. Cyn y dyddiad

[30] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

[31] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2021 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

[32] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn.

hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil: tair adran sy'n darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol (sef y cynlluniau classic, premium, classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un adran sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r budd-daliadau eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau.   Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod).   Mae budd-daliadau PCSPS yn cael eu "bancio" ar gyfer pob aelod sy'n newid i alpha, a chaiff y rhai sydd â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS y budd-daliadau hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu yn alffa - fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alffa, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun.)

Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad penodol ('prynu arian') gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae budd-daliadau yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol.  Mae budd-daliadau yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar

gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus, gyda'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun classic a'r budd-daliadau am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy'r aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae budd-daliadau cynllun alffa yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn *Neddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r oedran uchaf, sef 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer uwch staff yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu alffa - fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS ac alffa, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu budd-daliadau yn y ddau gynllun, ond noder y gallai cyfran o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy wrth gyrraedd oedrannau gwahanol).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y budd–daliadau a gaiff eu prisio yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r budd-daliadau a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun ei datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan. Cyfrifir CETV yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008* ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y Staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 441.55 | 434.72 |
| Staff ar secondiad | 2.08 | 4.65 |
| Staff dros dro / achlysurol | 17.62 | 14.02 |
| **Cyfanswm** | **461.25** | **453.39** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 461 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2020: 459).

***Tabl 6: Cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a band cyflog****

| **Categori** | **31 Mawrth 2021** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd Eraill | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | 0 | 0 | **4** |
| Staff | 245 | 235 | 0 | 0 | **480** |
| **Cyfanswm** | **247** | **237** | **0** | **0** | 484 |

| **Categori** | **31 Mawrth 2020** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd Eraill | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | 0 | 0 | **4** |
| Staff | 245 | 234 | 0 | 0 | **479** |
| **Cyfanswm** | **247** | **236** | **0** | **0** | **483** |

*Yn y tablau uchod, adroddir bod y staff a gyflogir yn niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, adroddir bod y dadansoddiad o rywedd ar sail niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn yn cadw ffocws strategol ar reoli absenoldeb ac mae’n cefnogi absenoldebau drwy ymrwymiad sefydliadol i lesiant, gyda chefnogaeth rheolwyr llinell effeithiol ynghyd â chyngor a chanllawiau proffesiynol gan yr adran Adnoddau Dynol ac Iechyd Galwedigaethol.  Mae llesiant wedi bod yn ganolog i ymateb y Comisiwn yn ystod y pandemig, gan ategu penderfyniadau strategol, hyd at gymorth a gweithgareddau ymarferol yn ystod y flwyddyn heriol hon.  Yn unol â thuedd genedlaethol y DU[33], roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn wedi gostwng i 2.07 y cant (2019-2020 - 4.00 y cant).Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant bellach yn cyfrif am 833 diwrnod a gollwyd (2019-20 – 1,159.5 diwrnod).  Fel canran o'r holl absenoldebau, mae wedi cynyddu i 39.7 y cant (o 29 y cant yn 2019-20); mae hyn o ganlyniad i ostyngiad mewn rhesymau eraill dros absenoldeb.

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr tra'n gweithio gartref. Mae hyn wedi canolbwyntio ar gefnogaeth, gan gynnwys asesiadau DSE rhithwir ac asesiadau rhithwir o’u gweithfan, newidiadau polisi cefnogol, yn enwedig i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, cyngor i reolwyr llinell ar reoli timau o bell, cynnal morâl, ac amrywiaeth o gymorth, arweiniad ac awgrymiadau ar gyfer gweithio gartref i bob grŵp staff.  Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â chydweithwyr, drwy gyfarfodydd holl staff, trafodaethau anffurfiol a blogiau. Mae arolygon llesiant chwarterol wedi dangos yr effaith dda y mae hyn wedi’i chael gyda 98 y cant o gyflogeion yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.  Er ein bod wedi gweld rhywfaint o welliant yn lles corfforol pobl tra'n gweithio gartref, rydym, yn naturiol, wedi gweld rhywfaint o ostyngiad mewn llesiant meddyliol pobl ac wedi parhau â'n gwaith ar fentrau i gefnogi a gwella iechyd meddwl a llesiant.

## Data Trosiant Staff

Mae trosiant wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf i 6.07 y cant (2019-20, 14.34 y cant). Y rheswm am hyn yw'r lefelau trosiant uwch nag arfer yn 2019-20 mewn perthynas â'r rhai a adawodd fel rhan o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Mae hefyd yn debygol bod hyn yn rhannol yn ymateb i'r pandemig, gan roi mwy o bwyslais ar ddiogelwch swyddi.  Mae cyfradd trosiant eleni o 6.07 y cant, i lawr o gyfartaledd o 10.11 y cant yn seiliedig ar gyfraddau trosiant y 4 blynedd ariannol diwethaf.

---

[33]https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/articles/sicknessabsenceinthelabourmarket/2020

## Dangosyddion Ymgysylltu â Staff

Cyflwynwyd arolwg staff blynyddol 2020 drwy arbenigwr arolygon annibynnol, Engaging Works. Mae'r Sgôr Ymgysylltu wedi cael ei gyfnewid am Sgôr Hapusrwydd yn y Gweithle. Mae'r Chwe Cham i Hapusrwydd yn y Gweithle yn fframwaith sy'n cwmpasu'r chwe sbardun allweddol i ymgysylltu â gweithwyr, hapusrwydd gweithwyr a llesiant gweithwyr: Gwobrwyo a Chydnabod, Rhannu Gwybodaeth, Grymuso, Llesiant, Meithrin Balchder a Boddhad Swydd.

Mae'r pandemig byd-eang wedi arwain at newid cyflym yn y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad, ac mae'r Arolwg wedi chwarae rhan bwysig wrth fonitro effaith y newid hwn ar staff y Comisiwn.   Rydym wrth ein bodd, er gwaethaf y pwysau proffesiynol a phersonol a wynebir gan bawb yn ystod y cyfnod anarferol hwn, fod ein hymrwymiad i ddiwylliant a arweinir gan werthoedd wedi sicrhau ymdeimlad cryf parhaus o un tîm a boddhad unigol.

## Anabledd

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein safbwynt o warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw ofynion unigol o ran hygyrchedd ar gyfer pob agwedd ar y broses recriwtio. Gwneir addasiadau rhesymol lle bo angen.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, gweithwyr mewn swydd neu sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu ddatblygiad salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn olygu addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi'i addasu a thechnoleg gynorthwyol. Bydd gweithwyr anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer wedi'u lleoli ar ein hystâd. Mae gan ein hystâd systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau hygyrchedd rheolaidd ar ein hystâd. Rydym wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol gan bartneriaid fel Action on Hearing Loss ac rydym yn sefydliad sy'n Ystyriol o Awtistiaeth.

Mae EMBRACE, ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn creu polisi ac yn cyfrannu at ddatblygu polisi drwy ddarparu mewnwelediad a

her. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaethau'r Senedd yn gorff sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur. Yn ogystal â'n cyfarfod partneriaeth strategol a chyfarfod partneriaeth gweithredol i sicrhau bod cyfle i drafod ehangder y materion ar draws y Comisiwn, drwy gydol y pandemig, cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol anffurfiol i hwyluso gweithio mewn partneriaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â Covid. Mae gan bob un o'r tair Undeb swyddogol (PCS, FDA a Prospect) eu cynrychiolwyr eu hunain ond mae'r tair yn gweithio gyda'i gilydd yn rheolaidd i gynrychioli holl aelodau'r Undebau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Un o flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer tymor y Senedd hon yw y gall 'Pob Aelod, aelod o staff ac ymwelydd weithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.' Felly, mae'n bwysig bod y Senedd yn parhau i fod yn hygyrch i bobl Cymru a thu hwnt: a'i gwneud yn berthnasol, yn hawdd ac yn ystyrlon i bobl ryngweithio â hi a chyfrannu at ei gwaith.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gyflogwr cynhwysol, gan alluogi ein holl staff i wireddu eu llawn botensial. Un o'n blaenoriaethau hirsefydlog yw sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â thangynrychioli pobl BAME yn ein gweithlu, yn enwedig ar lefel gwneud penderfyniadau uwch. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: ehangu ein pibellau talent, gwella ein brand fel cyflogwr a gweithio gyda phartneriaid fel Busnes yn y Gymuned i ymgysylltu'n agosach fel cyflogwr posibl o ddewis gyda chymunedau lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**

# Atebolrwydd ac Archwiliad

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2020-21

| | | Cyllideb | Alldro | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | Alldro |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 41,953 | 41,574 | 379 | 39,818 |
| Costau sy'n gysylltiedig ag etholiad | Nodyn SOS 01 | 500 | 471 | 29 | - |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 16,172 | 15,595 | 577 | 14,956 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 2,000 | 1,992 | 8 | 1,562 |
| | | **60,625** | **59,632** | **993** | **56,336** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

## b) Gofyniad arian parod net 2020-21

| | | Cyllideb | Alldro | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) | Alldro |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 56,075 | 54,648 | 1,427 | 53,482 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 199.

## Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

### (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2020-21***

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 24,321 | 24,858 | 537 | 24,858 | 537 | 23,596 |
| Symud mewn croniad ar gyfer gwyliau blynyddol | 512 | - | (512) | 650 | 138 | - |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 16,373 | 18,001 | 1,628 | 16,165 | (208) | 15,795 |
| **Gwariant refeniw gros** | **41,206** | **42,859** | **1,653** | **41,673** | **467** | **39,391** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (50) | (220) | (170) | (220) | (170) | (220) |
| **Gwariant refeniw net** | **41,156** | **42,639** | **1,483** | **41,453** | **297** | **39,171** |
| Gwariant cyfalaf* | 418 | 500 | 82 | 500 | 82 | 647 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **41,574** | **43,139** | **1,565** | **41,953** | **379** | **39,818** |

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 15,595 | 16,172 | 577 | 16,172 | 577 | 14,956 |
| Costau cysylltiedig ag Etholiad – refeniw | 352 | 381 | 29 | 381 | 29 | - |
| Costau cysylltiedig ag Etholiad – cyfalaf* | 119 | 119 | - | 119 | - | - |
| **Alldro adnoddau** | **57,640** | **59,811** | **2,171** | **58,625** | **985** | **54,774** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,992 | 1,600 | (392) | 2,000 | 8 | 1,562 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **59,632** | **61,411** | **1,779** | **60,625** | **993** | **56,336** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad. * Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £537,000.

## Alldro adnoddau net - Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2020-21 oedd £41.6 miliwn yn erbyn cyllideb o £42.0 miliwn sy'n arwain at danwariant cyffredinol o £0.4 miliwn (1.0 y cant) sy'n dod o fewn ystod targed y Comisiwn o 0.0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb.

Cyflwynodd y Comisiwn ddwy Gyllideb Atodol yn y flwyddyn. Diben y gyntaf, ym mis Mai, oedd dileu effaith ar y gyllideb a oedd yn deillio o safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi oherwydd bod Trysorlys EM wedi oedi wrth weithredu. Roedd dwy elfen i'r ail, ym mis Mawrth: un ar gyfer cost cyllid Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd, y mae esboniad pellach ohono isod, a'r llall oedd i fynd i'r afael â chynnydd sylweddol yn swm y gwyliau blynyddol a gronnwyd gan staff yn ystod y flwyddyn ac nas cymerwyd, oherwydd Covid, ac sy'n cynrychioli atebolrwydd yng nghyfrifon y Comisiwn. Mae hon yn eitem nad yw'n eitem arian parod ac felly caiff ei dangos ar ei llinell ei hun yn y Datganiad am Gyflenwad y Senedd. Mae'r tanwariant ar wariant a reolir gan y Comisiwn ac eithrio'r eitem hon yn gostwng i 0.6 y cant o'r gyllideb.

Roedd yr ystâd yn wag i raddau helaeth am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gyda chyfyngiadau ar waith oherwydd y pandemig Covid-19. Roedd hyn yn gyfle i fwrw ati i wneud gwaith i gryfhau diogelwch corfforol o amgylch mynedfeydd y Senedd a Thŷ Hywel. Blaenoriaethwyd adnoddau ar y dechnoleg sydd ei hangen i gefnogi Cyfarfod Llawn hybrid yn ogystal â gweithio rhithwir ar gyfer y staff. Roedd meysydd eraill a gynlluniwyd ar gyfer buddsoddi ynddynt yn 2020-21 yn cynnwys cwblhau'r wefan newydd, gwaith seilwaith yn Nhŷ Hywel, uwchraddio ac ymestyn offer TGCh, yn enwedig systemau clyweledol a darlledu, a datrysiadau technoleg i gefnogi'r Cyfarfod Llawn, Pwyllgorau ac ymchwil. O ran cyflogau staff a chostau cysylltiedig roedd tanwariant yn erbyn y gyllideb o tua dau y cant a defnyddiwyd y tanwariant hwn i gefnogi'r gronfa brosiect.

O 2020-21 sefydlodd y Comisiwn gronfa brosiect er mwyn cadw cyllidebau'r Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau ar wahân. Roedd cyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn £16.2 miliwn ac roedd yr alldro yn £15.6 miliwn gan roi tanwariant o tua phedwar y cant. Roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i effaith y pandemig Covid-19 a chostau sylweddol is ar gyfer teithio ac ymgysylltu ag Aelodau. Nid yw'r arbedion hyn ar gael i'r Comisiwn ar gyfer gwariant gweithredol.

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer

2020-21 ym mis Tachwedd 2019 a gwnaed yr amcangyfrif o £1.6 miliwn a oedd yn ofynnol ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol ar sail data a oedd ar gael ar y pryd. Ym mis Mehefin 2020, derbyniodd y Comisiwn amcangyfrif diwygiedig, o tua £2.0 miliwn, gan ei gynghorwyr proffesiynol, gan arwain at gyflwyno cyllideb atodol o £2.0 miliwn ar gyfer gwariant a reloir yn flynyddol yn ystod 2020-21.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net.***

| | Nodyn: | 2020-21 £000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 59,632 | 56,336 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (537) | (647) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 775 | 761 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **59,870** | **56,450** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £775,092 (2019-20, £761,220) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac o gostau cyflogau a threuliau y Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y cyflogau a'r treuliau hyn eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, ni chânt eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

## Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

# Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd (a adwaenir fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru tan 5 Mai 2020) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2021, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau i.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol, y meysydd hynny yn yr adroddiad taliadu sy'n destun archwiliad a'm hadroddiad archwilio arnynt. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiwn y Senedd yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn hyn o beth.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos ei bod

wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiwn y Senedd yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol wedi'i pharatoi yn unol â chanllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol am Adroddiad Taliadau, mae Comisiwn y Senedd wedi paratoi adroddiad o'r fath, ac yn fy marn i mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EM am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fe yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan y Ddeddf hon, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall, i gael eu paratoi.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai yr ystyrir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir i fod o bwys os, yn unigol neu gyda’i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu

dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:

- o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- o canfod ac ymateb i beryglon twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
- o rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a rheolwyr yn diystyru rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd;

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- ymholi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o

duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae’n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a’r incwm wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Ann-Marie Harkin**
Ar Gyfer ac Ar Ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 22 Mehefin 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg wreiddiol yw’r fersiwn hon. Senedd Cymru sy’n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw’r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi’u gwneud i’r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.



# Datganiadau Ariannol



Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021***

| Incwm o weithrediadau | Nodyn: | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 50 | 220 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **50** | **220** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 32,316 | 30,604 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 9,358 | 8,709 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,992 | 1,562 |
| Taliadau dibrisiant ac amhariad | 3 | 2,239 | 2,213 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 14,015 | 13,582 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **59,920** | **56,670** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **59,870** | **56,450** |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | | **59,870** | **56,450** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 0 | (4,639) |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 9 | (1,182) | (159) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **58,688** | **51,652** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 170 i 198 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2021***

| **Asedau anghyfredol:** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2021 £'000** | **31 Mawrth 2020 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 61,357 | 63,059 |
| Asedau annirweddol | 5 | - | - |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 61,357 | 63,059 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 10 | 10 |
| Symiau masnachol a symiau i'w derbyn | 6 | 1,900 | 1,878 |
| Arian parod ac eitemau'n cyfateb i arian parod | 7 | 412 | 60 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,322** | **1,948** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **63,679** | **65,007** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (5,003) | (3,876) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(5,003)** | **(3,876)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **58,676** | **61,131** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (20,412) | (19,602) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(20,412)** | **(19,602)** |
| **Cyfanswm asedau namyn y cyfanswm rhwymedigaethau** | | **38,264** | **41,529** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 38,244 | 40,699 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 9 | (20,241) | (19,431) |
| Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | 20,261 | 20,261 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **38,264** | **41,529** |

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 21 Mehefin 2021**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 170 i 198 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

## Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021***

| | Nodyn | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (59,870) | (56,450) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 3, 4 a 5 | 2,239 | 2,213 |
| Gostyngiad o ran stoc | | 0 | 3 |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | (22) | (154) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 1,127 | (1,053) |
| (Gostyngiad) / cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | | (352) | 232 |
| Creu darpariaethau | | 0 | 51 |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,992 | 1,562 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(54,886)** | **(53,596)** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (537) | (647) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(537)** | **(647)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 55,060 | 53,542 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 775 | 761 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (60) | (292) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **55,775** | **54,011** |
| (Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 352 | (232) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 60 | 292 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **412** | **60** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 170 i 198 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021***

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **41,344** | **15,622** | **(18,028)** | **38,938** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (56,450) | 4,639 | 159 | (51,652) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,562 | - | (1,562) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 54,088 | - | - | 54,088 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (546) | - | - | (546) |
| Taliadau uniongyrchol | | 761 | - | - | 761 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (60) | - | - | (60) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | 40,699 | 20,261 | (19,431) | 41,529 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (59,870) | - | 1,182 | (58,688) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,992 | - | (1,992) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 56,075 | - | - | 56,075 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (1,015) | - | - | (1,015) |
| Taliadau uniongyrchol | | 775 | - | - | 775 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (412) | - | - | (412) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **38,244** | **20,261** | **(20,241)** | **38,264** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 170 i 198 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2020-21 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad y Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2020-21 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, dan sylw ond nid ydynt wedi dod i rym eto:

- IFRS 16 Prydlesi a Covid-19;
- Ffioedd yn y Prawf '10 y cant' ar gyfer Dadgydnabod Rhwymedigaethau Ariannol (Diwygiadau i IFRS 9)
- Contractau Beichus—Cost Cyflawni Contract (Diwygiadau i IAS 37)
- Eiddo, Offer a Chyfarpar: Enillion cyn y Defnydd a Fwriadwyd (Diwygiadau i IAS 16)
- Is-gwmni fel Mabwysiadwr Tro Cyntaf (Diwygio IFRS 1)
- Trethiant mewn Mesuriadau Gwerth Teg (Diwygio IAS 41)

- Diweddaru Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3)
- Diwygiadau i IFRS 17 Contractau Yswiriant
- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1)

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol, heblaw am IFRS 16.

**IFRS 16 - Prydlesau**

Mae IFRS 16 - Prydlesau yn darparu model cyfrifyddu prydlesau sengl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod asedau ar brydles a rhwymedigaethau sy'n cynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r eitem ar brydles a'r taliadau priodol am y brydles yn y dyfodol.

Caiff y gost rhent o ran prydlesi gweithredu a gydnabuwyd o'r blaen yn y datganiad incwm ei ddisodli gan dâl dibrisiant a thâl cyllid. Bydd hyn yn berthnasol i bob prydles berthnasol oni bai bod cyfnod y brydles yn llai na 12 mis neu os oes gwerth isel i'r ased sylfaenol. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £5,000.

Mae IFRS 16 yn rhoi diffiniad mwy cyfyng o brydles nag IAS 17 ac IFRIC 4 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth gostyngedig isafswm taliadau'r brydles, ac y caiff yr asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau hawl i ddefnyddio, eu cyflwyno o dan eiddo, offer a chyfarpar. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, offer a chyfarpar a gwerth rhwymedigaethau prydles. Mae'r Comisiwn wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anghyffyrddadwy.

**Effaith ar gyfrifon 21-22**

Ar gyfer prydlesau a lofnodwyd fel ar 31 Mawrth 2022 (dyddiad y cais cychwynnol), yr adroddir arnynt ar hyn o bryd o dan Nodyn 10, byddai effaith mabwysiadu'r safon newydd yn cynyddu'r ased eiddo, offer a chyfarpar oddeutu £114 miliwn a bydd gwerth rhwymedigaethau'r brydles hefyd yn cynyddu oddeutu £114 miliwn.

Codir Costau Dibrisiant a Chostau Cyllid ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE), sy'n disodli taliadau rhent. Codir taliadau rhent ar rwymedigaeth y brydles yn y dyfodol.

Bydd mabwysiadu IFRS 16 yn arwain at ostyngiad o tua £2.8 miliwn yn yr all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd cyfatebol o ran all-lif arian parod net o weithgareddau cyllido. Fodd bynnag, ni fydd dim effaith o ran llif arian cyffredinol yn deillio o fabwysiadu'r safon newydd.

## Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

## Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill, heblaw pan fo natur y trafodyn yn awgrymu y gallai cyfalafu fod yn fwy priodol.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

## Amhariad asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

## Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

## Asedau annirweddol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

## Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol

ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

### Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Gosodion a ffitiadau: | Pump i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu | Tair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau annirweddol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

### Yr elfen ddibrisiant a wireddir o’r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant.   Gall elfen o’r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai’n fwy na’r dibrisiant a fyddai’n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai’r swm sy’n ymwneud â gormodedd o’r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i’w drosglwyddo o’r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i’r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

### Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u “grwpio” yn TGCh; offer clyweled a darlledu; Seilwaith TGCh, ac asedau anghyffyrddadwy. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

### Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau a godir ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

### Stocrestrau

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu’r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

### Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

### Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth a chyda’r banciau masnachol y gellir ei drosi’n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Prydlesau

Asedau ar brydles: Caiff prydlesau tir ac eiddo sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau a ddaw yn sgîl perchnogaeth eu dosbarthu fel prydlesau cyllid. Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n gyfartal â'r gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Taliadau prydles: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Cyflwyno adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

## Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb ei gymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.  Cwblhawyd prisiad y Cynllun fel yr oedd ym mis Mawrth 2016 ar 26 Chwefror 2019. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:  Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (MSPS)

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[34].

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy.
Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn

[34]https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

Dadfeilio. Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw wrth gefn, a'r adolygiad blynyddol, a chytuno ar y flaenraglen waith 10 mlynedd. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol.

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 1: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff £'000 | Aelodau a deiliaid swyddi £'000 | Cyfanswm 2020-21 £'000 | Cyfanswm 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 17,909 | 5,303 | 23,212 | 22,286 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 537 | - | 537 | - |
| Staff ar secondiad | 72 | - | 72 | 227 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,909 | 666 | 2,575 | 2,506 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 51 | - | 51 | - |
| Staff ar secondiad | 7 | - | 7 | 15 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 4,761 | 1,043 | 5,804 | 5,642 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 110 | - | 110 | - |
| Staff ar secondiad | 17 | - | 17 | 26 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 25,373 | 7,012 | 32,385 | 30,702 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (69) | - | (69) | (98) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **25,304** | **7,012** | **32,316** | **30,604** |

Gwnaed un taliad diswyddo i aelod o staff y Comisiwn yn y band £0 - 20,000 (2019-20, dim taliadau.)

Y Comisiwn sy'n talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr esbonir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i

Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 40 o swyddi deiliaid swyddi, gydag 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Gweinidog, gydag un Gweinidog hefyd yn Gwnsler Cyffredinol, a phump Dirpwyr Weinidog, gyda un ohonynt hefyd yn Brif Chwip.

### Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2020-21 roedd cyfraniadau cyflogwr o £4,846 miliwn (2019-20, £4,567 miliwn) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 y cant i 30.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r budd-daliadau wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alffa neu'r â'r cynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn budd-daliadau diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw Alffa; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £24,549 (2019-20, £23,455) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu budd-daliadau ar gyfer Aelodau'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EM yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* a'i gyflwyno i ddod i rym o 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n

hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Pontio' ac wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 5 Mai 2021.

Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50fed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Y gyfradd cyfraniadau aelodau yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd ac ar gyfer y rhai a symudodd i'r cynllun CAREar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Pontio' ac yn parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu ar eu cyfradd gyfredol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad 40fed neu 50fed yn y drefn honno tan 5 Mai 2021. O 6 Mai 2021, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE. Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar hyn o bryd yw 19.9 y cant ac mae'n destun terfyn uchaf. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd olaf y Cynllun ar 31 Mawrth 2020.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.

Caiff asedau'r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, a chânt eu rheoli gan bedwar rheolwr buddsoddi. Buddsoddodd yr Ymddiriedolwyr mewn cronfa Twf Amrywiol ("DGF"), cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi'i diogelu a heb ei diogelu), cronfa Eiddo a chronfa Mynegai Cysylltiedig â Giltiau. Yn ystod y flwyddyn, cydnabu'r Ymddiriedolwyr y gellid alinio'r dyraniad asedau presennol ar draws y ddwy gronfa Twf Amrywiol yn well ag amcanion yr Ymddiriedolwyr i leihau amlygiad y Cynllun i'r sector Olew a Nwy i sero dros gyfnod o bum mlynedd, yn amodol ar argaeledd cerbydau buddsoddi addas ar gyfer maint y Cynllun dros yr amserlen honno. Yng ngoleuni hyn, ym mis Rhagfyr 2020 cytunodd yr Ymddiriedolwyr i leihau amlygiad y Cynllun i Gronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford o blaid cronfa Enillion Go Iawn Cynaliadwy BNY Mellon.

Ni ddisgwylir i'r newid gael effaith sylweddol ar lefel yr enillion disgwyliedig sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun na chyfaddawdu gallu'r Cynllun i dargedu'r lefel ofynnol o elw buddsoddi i gefnogi'r tybiaethau prisio actiwaraidd. Mae'r newid yn seiliedig ar gred y Bwrdd bod adenillion buddsoddi hirdymor yn fwy tebygol o gael eu sicrhau gan gwmnïau cynaliadwy.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiynau ar 16 Mawrth 2021 cytunodd y Bwrdd i ddiogelu hanner amlygiad uniongyrchol y Cynllun fel y byddai tua 12.5 y cant o asedau'r Cynllun a ddelir mewn daliadau ecwiti uniongyrchol yn parhau i fod yn agored i arian cyfred tramor drwy'r gronfa arian cyfred heb ei diogelu.

Bwrdd Taliadau'r Senedd yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r budd-daliadau a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer cronni budd-daliadau yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o'r cyflog pensiynadwy o'r enw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r budd-daliadau o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben neu'r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fudd-daliadau. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, oddeutu 20 mlynedd.

***Tabl 2: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (63,885) | (54,679) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 43,644 | 35,248 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(20,241)** | **(19,431)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (20,241) | (19,431) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(20,241)** | **(19,431)** |

***Tabl 3: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 2,488 | 2,090 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,253 | 1,347 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (798) | (915) |
| | **2,943** | **2,522** |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 951 | 960 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,992 | 1,562 |
| | **2,943** | **2,522** |

***Tabl 4: Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr* (SCITE)**

| | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 7,144 | (3,220) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 355 | (635) |
| Newidiadau mewn tybiaethau | (6,317) | 4,014 |
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **1,182** | **159** |

*Tabl 5: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn*

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 54,679 | 55,178 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 2,488 | 2,090 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 498 | 502 |
| Budd-daliadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (995) | (1,059) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,253 | 1,347 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | 5,962 | (3,379) |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **63,885** | **54,679** |

*Tabl 6: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn*

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 35,248 | 37,150 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 798 | 915 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 7,144 | (3,220) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 951 | 960 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 498 | 502 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (995) | (1,059) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **43,644** | **35,248** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £980,977 at Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn 2021-22.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun

***Tabl 7: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 53% | 38% |
| Buddsoddiadau amgen | 15% | 20% |
| Eiddo | 7% | 9% |
| Llog Sefydlog ac Arian Parod | 25% | 33% |
| | **100%** | **100%** |

Cynhaliodd y Bwrdd Pensiynau adolygiad o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn 2020. O ganlyniad i'r adolygiad, buddsoddodd asedau'r Cynllun mewn amrywiaeth o gronfeydd gwahanol fel a ganlyn:

- Twf Arallgyfeiriedig Baillie Gifford
- Enillion Real Cynaliadwy BNY Mellon
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Cenedlaethau Partners
- LGIM Ethical Global Equity Index
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt
- Arian Parod LGIM (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian)

Rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn sicrhau lefel o enillion disgwyliedig debyg i strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun. Cyfanswm gwerth y farchnad yr Arian a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2021 oedd £43.6 miliwn (31 Mawrth 2020, £35.2 miliwn).

Enillodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 23.6 y cant. Cafodd hyn ei ysgogi gan y cynnydd sylweddol mewn marchnadoedd sy'n ceisio elw (e.e. ecwiti) yn ystod 2020-21 (2019-20, -12 y cant o elw). Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2020-21 oedd elw o £8.2 miliwn (2019-20, colled o £2.2 miliwn). Cynhyrchwyd yr elw hwn gan berfformiad cadarnhaol ar draws holl gronfeydd y Cynllun yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun wedi tanberfformio yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a oedd dros 50 y cant yn uwch (mewn termau lleol), ond a wnaeth berfformio'n well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a wnaeth elw o tua -10.4 y cant) a chyfradd ddisgownt y Cynllun (Mynegai Prisiau Defnyddwyr ac ychwanegu 2.5 y cant), a wnaeth elw o tua 3.2 y cant.

## Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 8: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 1.95% | 2.25% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -2.20% | -1.75% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -0.45% | 0.25% |
| Hyd oes ddisgwyliedig yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Gwryw | 23.8 | 23.7 |
| Menyw | 25.2 | 25.1 |
| Gweddwon | 24.0 | 23.9 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 1.0 y cant, a byddai newid o tua £0.6 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 9.5 y cant, a byddai newid o tua £6.1 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn hirch o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 8 y cant, a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £5.1 miliwn.

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 9: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig | 63,885 | 54,679 | 55,178 | 50,385 | 49,456 |
| Asedau'r cynllun | 43,644 | 35,248 | 37,150 | 35,406 | 33,713 |
| Rhwymedigaeth net | (20,241) | (19,431) | (18,028) | (14,979) | (15,743) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 355 | (635) | (370) | 297 | 160 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 7,144 | (3,220) | 388 | 669 | 3,615 |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd[35] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

[35]https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

## 02. B - Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr aelodau, sef £9.358 miliwn (2019-20, £8.709 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| Categori | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau Swyddfa | 998 | 889 |
| Costau ychwanegol | 245 | 244 |
| Cyfanswm Staff yr Aelodau | 8,082 | 7,370 |
| Costau teithio | 33 | 206 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **9,358** | **8,709** |

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys pum taliad ymadael, ar gyfanswm o £26,716 wnaed yn 2020-21 (2019-20, saith taliad ar gyfanswm o £35,907).

Mae gan y Senedd gynllun pensiwn rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. Hefyd, gall gweithwyr ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd. Roedd y Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad ail-gyflwyno'r Cynllun oedd 1 Ionawr 2021. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2020-21 oedd £775,792 (2019-20, £700,461).

## 02. C - Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd, ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'r Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') yn eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21, Douglas Bain oedd yn dal swydd y Comisiynydd Safonau Dros Dro.  Yn dilyn proses recriwtio, penodwyd Douglas Bain yn Gomisiynydd o 1 Ebrill 2021. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel Comisiynydd Safonau Dros Dro ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan ddau aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos a gaiff ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol.  Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Comisiynydd Dros Dro a chostau cyflog ei staff cymorth. Yn ogystal â hyn ystod 2020-21 gofynnodd y Comisiynydd Dros Dro am gyngor cyfreithiol ar nifer o faterion. Darparwyd y cyngor hwn gan staff y Comisiwn ac, mewn un achos, fe'i hategwyd gan gymorth allanol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | - | - | 220 | - |
| Costau Comisiynwyr | - | - | - | £17,900 |
| Oriau Comisiynydd dros dro | 540 | - | 171 | - |
| Costau Comisiynydd dros dro | - | £42,517 | - | £12,898 |
| **Costau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru** | | **£42,517** | | **£30,798** |
| Costau Staff Cymorth | | £89,570 | | £123,630 |
| Costau Cymorth Cyfreithiol | | £16,667 | | - |
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ag adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn** | | **£106,237** | | **£123,630** |

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £16.4 miliwn (2019-20, £15.8 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2020-21 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|
| Lesau - adeiladau | 2,790 | 2,794 |
| Prydlesau - eraill | 68 | 75 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,736 | 5,669 |
| Costau TGCh | 3,724 | 2,705 |
| Treuliau gweinyddol | 1,350 | 1,737 |
| Costau cysylltiedig â staff | 347 | 602 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **14,015** | **13,582** |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 2,239 | 2,213 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **16,254** | **15,795** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (2019-20, £57,958). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2020-21 (2019-20, dim).

## Effaith Covid-19 ar gontractau cyflenwi

Fel llawer o gyrff cyhoeddus eraill, mae gan Gomisiwn y Senedd nifer o gontractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Ym mis Mawrth 2020 lluniodd Swyddfa'r Cabinet Nodyn Polisi Caffael (PPN) "Cymorth i gyflenwyr oherwydd Covid-19"[36] er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus ynghylch talu eu cyflenwyr er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth yn ystod yr achosion o Covid-19 ac wedyn. Mae rhan o'r Nodyn Polisi Cyhoeddus yn nodi: "Contracting authorities should act now to support suppliers at risk so they are better able to cope with the current crisis and to resume normal service delivery and fulfil their contractual obligations when the outbreak is over", ac aiff ymlaen: "It is vital that contracting authorities pay all suppliers as quickly as possible to maintain cash flow and protect jobs. Contracting authorities should also take action to continue to pay suppliers at risk due to Covid-19 on a continuity and retention basis."

[36]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/874178/PPN_02_20_Supplier_Relief_due_to_Covid19.pdf

Astudiodd y Comisiwn bob trefniant yn ei dro er mwyn canfod y goblygiadau cytundebol ariannol a gweithiodd gyda'r cyflenwyr perthnasol mewn ffordd agored a thryloyw. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 talodd y Comisiwn £0.363 miliwn o wariant ychwanegol (2019-20, £dim) i gefnogi a sicrhau contractau cyflenwi, ond ni chafodd ddim gwasanaethau. Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys o dan y pennawd gwariant 'Costau adeiladau a chyfleusterau'.

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodiadau a ffitiadau [37] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | 2020-21 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **61,131** | **7,166** | **1,519** | **167** | **69,983** |
| Ychwanegwyd | - | 200 | 293 | 44 | 537 |
| Ailddosbarthwyd | - | - | 20 | (20) | - |
| Gwerthwyd | - | - | (43) | - | (43) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **61,131** | **7,366** | **1,789** | **191** | **70,477** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **-** | **(6,041)** | **(883)** | **-** | **(6,924)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,683) | (467) | (89) | - | (2,239) |
| Gwerthwyd | - | - | 43 | - | 43 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **(1,683)** | **(6,508)** | **(929)** | **-** | **(9,120)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021** | **59,448** | **858** | **860** | **191** | **61,357** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **1,125** | **636** | **167** | **63,059** |

Gwerth llyfr y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2021 yw £4.185 miliwn (31 Mawrth 2020, £4.250 miliwn).

Cynhaliwyd yr ailbrisiad diweddaraf o dir ac adeiladau gan DS Gibbon FRICS o Avison Young (UK) Cyf, fel ar 31 Mawrth 2020, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig (DRC) fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost codi adeiladau cyfwerth modern a dibrisio'r gost i ystyried oedran a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

[37] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o nam ar 31 Mawrth 2021 ac felly ni nodwyd unrhyw namau.

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodiadau a ffitiadau [38] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | 2019-20 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **61,641** | **6,817** | **1,376** | **12** | **69,846** |
| Ychwanegwyd | - | 349 | 131 | 167 | 647 |
| Ailddosbarthwyd | - | - | 12 | (12) | - |
| Ailbrisiad | (510) | - | - | - | (510) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **7,166** | **1,519** | **167** | **69,983** |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **(3,432)** | **(5,628)** | **(800)** | **-** | **(9,860)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,717) | (413) | (83) | - | (2,213) |
| Ailbrisiad | 5,149 | - | - | - | 5,149 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **(6,041)** | **(883)** | **-** | **(6,924)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **1,125** | **636** | **167** | **63,059** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **58,209** | **1,189** | **576** | **12** | **59,986** |

[38] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | 2021 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | 884 | 884 |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | (884) | (884) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020 a 2021** | - | - |

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | 884 | 884 |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | (884) | (884) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 a 2020** | - | - |

## 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2021<br>£'000 | 31 Mawrth 2020<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 44 | 115 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 12 | 21 |
| Rhagdaliadau | 1,647 | 1,485 |
| TAW y gellir ei hadennill | 197 | 257 |
| | **1,900** | **1,878** |

Nid oedd dim symiau i'w derbyn yn ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 60 | 292 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 352 | (232) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **412** | **60** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 98 | 39 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 314 | 16 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **412** | **60** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 4 | 15 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 838 | 805 |
| Symiau masnachol taladwy | 622 | 1,083 |
| Croniadau | 3,127 | 1,913 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 412 | 60 |
| | **5,003** | **3,876** |

Nid oedd dim symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd £'000 | Darpariaeth Dadfeilio £'000 | 2020-21 Cyfanswm £'000 | 2019-20 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **19,431** | **171** | **19,602** | **18,148** |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | (1,182) | - | (1,182) | (108) |
| Costau cyllid pensiynau | 1,992 | - | 1,992 | 1,562 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **20,241** | **171** | **20,412** | **19,602** |

O dan IAS 19, cydnabyddir atebolrwydd o £20.241 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn adran ddarpariaethau Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £20.412 miliwn o ddarpariaeth (2019-20, £19.602 miliwn), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (2019-20, £0 miliwn).

## 10. Ymrwymiadau o dan lesau

### (a) Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---:|---:|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,796 | 2,796 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,120 | 11,156 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 16,629 | 19,389 |
| | **30,545** | **33,341** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 40 | 14 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 122 | 9 |
| | **162** | **23** |

### (b) Lesau ariannol

Nid oes dim rhwymedigaethau o dan lesau ariannol ar hyn o bryd.

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2021 nac ar 31 Mawrth 2020.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Taliadau a staff, tudalen 135). Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd.

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Gall Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth, . Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod o'r Senedd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

## 15. Digwyddiadau dilynol

### Etholiad y Senedd

O ganlyniad i etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021, bydd angen talu'r costau sy'n gysylltiedig â hawliadau adsefydlu Aelodau o'r Senedd, diswyddiadau staff cymorth Aelodau'r Senedd a drechwyd a chostau cysylltiedig eraill. Amcangyfrifir bod hyn yn £2.6 miliwn.

Cyfrifir y symiau a delir fel hawliadau adsefydlu fel y nodir ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau. Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd a'u staff.

# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar Reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol.  Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2020-21 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**SOS 03 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod**

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (54,648) | (53,482) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 56,075 | 54,088 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (1,015) | (546) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (60) | (292) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod | 352 | (232) |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 04 Cysoni Canlyniad Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2020-21

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) £'000 | Alldro 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 60,625 | 59,632 | 993 | 56,336 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (4,250) | (4,231) | (19) | (3,775) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | (300) | (753) | 453 | 921 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **56,075** | **54,648** | **1,427** | **53,482** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2020-21 £'000 | Alldro 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (2,250) | (2,239) | (11) | (2,213) |
| Costau cyllid Pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 9 | (2,000) | (1,992) | (8) | (1,562) |
| | | **(4,250)** | **(4,231)** | **(19)** | **(3,775)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

### SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2020-21 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 | Alldro 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 220 | 50 | 220 |
| Is-gyfanswm | 220 | 50 | 220 |
| Swm a gadwyd | 220 | 50 | 220 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2020–21 (dim yn 2019-20).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Senedd Cymru
Welsh Parliament